# Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Awst 2023

## Opera Cenedlaethol Cymru Cyfyngedig

(Cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfranddaliadau)

Rhif Cwmni: 00454297 (Cymru a Lloegr)

Rhif Elusen: 221538

Cynnwys

# Cyflwyniad


2 Amcanion, Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd
3 Datganiad y Cadeirydd


# Adroddiad Strategol


6 Perfformiad Busnes
14 Adolygiad Ariannol
17 Adroddiad y Cyfarwyddwyr
20 Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr


# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol


21 Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Opera Cenedlaethol Cymru Cyfyngedig


# Datganiadau Ariannol


25 Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol
26 Mantolen Gyfunol
27 Mantolen y Cwmni
28 Datganiad Llif Arian Cyfunol


# Nodiadau


29 Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol
56 Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol


# Manylion gweinyddol a chyfeirnod


57 Manylion y Cwmni
57 Ymgynghorwyr Proffesiynol
58 Cyfarwyddwyr a Swyddogion

# Cyflwyniad

Mae'r ymddiriedolwyr yn falch o gyflwyno eu hadroddiad cyfarwyddwyr blynyddol sy'n ymgorffori'r adroddiad strategol, ynghyd â'r datganiadau ariannol o'r gweithgaredd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Awst 2023, sydd hefyd yn cael eu paratoi i fodloni'r gofynion ar gyfer adroddiad a chyfrifon cyfarwyddwyr at ddibenion Deddf Cwmnïau.

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a amlinellir yn nodiadau'r datganiadau ariannol ac maent yn cydymffurfio â dogfen Lywodraethu'r elusen, Deddf Cwmnïau 2006 a "Chyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arfer Argymelledig sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) yn weithredol o 1 Ionawr 2019)".

## Amcanion Elusennol

Amcanion elusennol WNO yw "...i hyrwyddo a chynorthwyo gyda'r cynnydd mewn addysg i'r graddau â bod natur elusennol i'r fath hyrwyddiad a chymorth, ac yn benodol, cyn belled â bod natur elusennol iddynt, i gaffael a chynyddu'r gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o gelf ddramatig ar bob ffurf yng Nghymru a thu hwnt." Dyfynnwyd y geiriau hyn o Femorandwm Cymdeithasu WNO.

## Gweledigaeth

**Rydym yn dwyn ynghyd pobl o bob cefndir i greu a phrofi opera ryfeddol, i gyfoethogi bywydau, cryfhau cymunedau a chyfoethogi'r holl ardaloedd rydym yn canolbwyntio ein gwaith ynddynt.**

Mae Cynllun Strategol 2023-27 yn cefnogi trawsnewid Opera Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod y cwmni'n cadw ei statws cenedlaethol a rhyngwladol, gan ddefnyddio rhwydwaith o hybiau lleol sydd wedi'u cynllunio i feithrin cysylltiadau agos rhwng y cwmni a'i briod gymunedau. Bydd ei raglenni'n gyfuniad o berfformiadau a phrosiectau cyfranogol, gyda phwyslais arbennig ar waith wedi ei greu ar y cyd. Y nod cyffredinol yw gwneud y gwaith yn berthnasol bob amser, gan ddod o hyd i gysylltiadau rhwng y gwaith ei hun a phrofiadau go iawn y gynulleidfa.

## Gwerthoedd

Rydym yn:

**Gynhwysol** - Mae gennym ddiwylliant gweithle lle mae bob person yn cael ei barchu a'i werthfawrogi.

**Cydweithredol** - Rydym yn gweithio fel tîm i gyflawni nodau cyffredin.

**Arloesol** - Rydym yn herio ein hunain yn greadigol ac yn annog syniadau newydd.

**Hael** - Mae ein pobl yn defnyddio eu dawn, gwybodaeth a sgiliau gyda haelioni ysbryd.

**Cyfrifol** - Rydym yn gweithredu gydag uniondeb ac atebolrwydd.

# Datganiad y Cadeirydd

Unwaith eto, rwy'n hynod o falch i edrych yn ôl ar flwyddyn lle perfformiodd WNO waith rhagorol a chael canmoliaeth gan feirniaid a'r cyhoedd. Enwebwyd The Makropulos Affair am wobr Sky Arts. Cafodd Blaze of Glory! a Candide adolygiadau pum seren. Perfformiodd Chwarae Opera YN FYW i dai llawn a chafodd ein rhaglenni 'Lles gyda WNO' effaith ar gynifer o fywydau. Dylid llongyfarch tîm WNO am eu hymrwymiad a'u gwaith gwych.

Mae'n amhosibl edrych yn ôl ar dymor 2022-23, fodd bynnag, heb sôn am ganlyniad Adolygiad Buddsoddi Arts Council England (ACE) a'i effaith ar Opera Cenedlaethol Cymru, yn y tymor byr a'r tymor canolig. Er ein bod, wrth gwrs, yn ddiolchgar i gael ein cynnwys ym Mhortffolio Cenedlaethol ACE ar gyfer 2023-2026, fel y darparwr opera prif raddfa mwyaf yng nghylchdaith deithiol ranbarthol Lloegr, cawsom drafferth i gysoni toriad sylweddol o £2.1 miliwn i'n cyllid craidd ag agenda 'ffyniant bro' Llywodraeth y DU. Roedd cam-linellu rhwng blwyddyn gyllido ACE (Ebrill-Mawrth) a diwedd blwyddyn ariannol WNO ym mis Awst yn golygu bod yn rhaid i ni wneud rhai penderfyniadau cyflym ynghylch sut y gellid lliniaru rhywfaint o'r diffyg o fewn y flwyddyn gyllido gyntaf. Gwnaed y penderfyniad felly i ollwng Lerpwl o'n hamserlen deithio ar unwaith, ac i ollwng cynhyrchiad o daith Hydref 2023.

Roedd toriad ACE yn cyfateb i 35% o'i lefel flaenorol o gyllid, ac i gydbwyso hyn, cynigiodd ACE y dylid lleihau teithiau WNO yn Lloegr o un wythnos ar ddeg i saith wythnos. Er mwyn rheoli gostyngiad o'r fath mewn cyllid, gwahoddwyd WNO i wneud cais i raglen 'Transform' ACE, sy'n helpu sefydliadau sydd wedi colli cyllid i bontio'r bwlch ariannu dros gyfnod o dair blynedd. Yn ffodus, roedd cais WNO yn llwyddiannus, a chafodd y sefydliad ddyraniad o £3.25 miliwn.

Roedd Covid yn dal i fod yn bresennol ym meddyliau llawer o'n cynulleidfaoedd trwy gydol y flwyddyn. Roedd hi'n Basg erbyn i ni o'r diwedd weld yr egin gobaith o ddychwelyd i rywbeth tebyg i'r lefel cynulleidfaoedd y byddem wedi eu disgwyl cyn y pandemig. Mae'n dyst i ysbryd y cwmni nad oedd ansawdd y perfformiadau wedi pylu, hyd yn oed pan oeddynt yn perfformio mewn theatrau hanner llawn.

Roedd dychweliad araf y gynulleidfa yn hyd yn oed mwy siomedig, o ystyried natur gref taith yr hydref. Cynhyrchiad agoriadol tymor yr hydref oedd The Makropulos Affair gan Janáček, cyd-gynhyrchiad gydag Opera'r Alban. Arweiniodd ein Cyfarwyddwr Cerdd Tomáš Hanus y perfformiadau yn fedrus gan ddefnyddio ei fersiwn bwerus ei hun o'r sgôr, ac yn nwylo arbenigol y cyfarwyddwr Olivia Fuchs, a gyda chast hynod o gryf dan arweiniad Angeles Blancas Gulin fel Emilia Marty a Nicky Spence fel Albert Gregor, cafodd y cynhyrchiad ganmoliaeth gan bawb. Roedd yn achlysur pan gyfunodd holl elfennau opera – cerddoriaeth, theatr a dylunio – mewn noson o gydlyniad a dwyster anarferol. Byddai prawf o gryfder y cynhyrchiad yn dod yn ddiweddarach yn y daith, pan gyflwynodd y cwmni ef yng Ngŵyl Janáček 2022 yn Brno, sef tref enedigol y cyfansoddwr. Roedd cynulleidfaoedd ar eu traed ar ôl y perfformiad o The Makropulos Affair a'r cyngerdd penigamp y chwaraeodd Cerddorfa WNO y noson cynt, pan ymunodd Band Canolog Lluoedd Arfog Tsieca â'r gerddorfa ar gyfer perfformiad o Sinffonieta Janáček.

Ar ôl ei berfformiad cyntaf llwyddiannus yng Nghaerdydd yn ystod yr haf, fe wnaethom barhau â'n perfformiadau o Migrations gan Will Todd trwy gydol taith yr hydref, er gyda rhai newidiadau cast a ddaeth yn sgil tynnu'n ôl oherwydd Covid. Roedd naratifau lluosog y gwaith yn gofyn i ni ymgysylltu â pherfformwyr o wahanol ddisgyblaethau i'r arfer - côr Gospel, perfformwyr Bollywood a'n Cwmni Opera Ieuenctid. Roedd logisteg teithio cwmni mor fawr yn sicr yn her. Ond mi oedd hi'n braf iawn gweld pa mor dda y derbyniwyd y gwaith yn y dinasoedd gwahanol. Mae creu unrhyw opera newydd yn risg, waeth beth fo'i maint, felly braf oedd gweld pa mor dda yr oedd y themâu pwysig yn Migrations yn canu cloch gyda'n cynulleidfaoedd. Daeth y daith i ben gydag adfywiad o La bohème, sy'n nodedig am fod yn ymddangosiad cyntaf Pietro Rizzo fel arweinydd WNO.

Roedd tymor y gwanwyn yn cynnwys dau gynhyrchiad newydd. Perfformiwyd The Magic Flute mewn cynhyrchiad a gyfarwyddwyd gan Daisy Evans ac yn cynnwys ei chyfieithiad ei hun. Y briff oedd creu cynhyrchiad a fyddai'n cysylltu â

# Datganiad y Cadeirydd (parhad)

chynulleidfaoedd ifanc. I'r perwyl hwn ailadroddodd Daisy'r stori trwy lygaid person ifanc, yn ogystal ag ailffurfio rhai o'r dilyniannau cerddorol. O ystyried nifer y perfformiadau, fe wnaethom gyflogi cast dwbl, a oedd yn cynnwys perfformwyr ifanc o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ac Opera Ieuenctid WNO. Gwnaeth yr arweinydd, Paul Daniel, ei ymddangosiad cyntaf gyda WNO, a chafwyd perfformiadau pellach gan Teresa Riviero Böhm a Frederick Brown. Ail gynhyrchiad y daith oedd première byd Blaze of Glory!, gan David Hackbridge Johnson i libreto ffraeth iawn gan Emma Jenkins. Yn wreiddiol roedd Blaze of Glory! i fod i gael ei berfformio fel rhan o daith graddfa ganolig, ond cafodd y daith ei gohirio oherwydd y pandemig. Rhoddodd y gohiriad hwn gyfle i'r tîm creadigol ehangu'r darn i'w berfformio ar ein prif lwyfannau. Bu'r newid hwn yn werth chweil ac roedd y canlyniad yn llwyddiant ysgubol. Yn ogystal â bod yn gyfrwng i Gorws WNO, roedd yn cynnwys perfformiadau cryf gan Jeffrey Lloyd Roberts a Rebecca Evans yn y ddwy brif ran, yn ogystal â chyfranogiad Côr Meibion lleol ym mhob perfformiad, wyth ohonynt i gyd. Mae neges ganolog Blaze of Glory! – sef bod gan gerddoriaeth, a chanu yn arbennig, y pŵer i wella clwyfau a dod â chymunedau at ei gilydd – yn ymddangos yn arbennig o briodol yn yr amseroedd hyn pan fo sector y celfyddydau perfformio dan fygythiad.

Mae Cerddorfa WNO yn mynd o nerth i nerth, ac yn ystod y flwyddyn cyflwynodd gyngherddau yn Neuadd Dewi Sant ac ar deithiau o amgylch Cymru a Lloegr. Cefnogodd y gerddorfa rowndiau Canwr y Byd Caerdydd, yn ogystal â rownd derfynol cystadleuaeth Lleisiau Opera Du, Ffederasiwn Clasurol Du Prydain. Ond mae'n rhaid mai'r uchafbwynt i'r Corws oedd perfformio yng nghyngerdd agoriadol Gŵyl Wanwyn Prague, achlysur oedd yn cynnwys Llywydd Tsiecia, Petr Pavel yn y gynulleidfa ac a ddangoswyd ar deledu byw. Y rhaglen ar gyfer y cyngerdd agoriadol bob amser yw dilyniant Smetana o gerddi symffonig Ma Vlast, ac fel arfer dim ond cerddorfeydd gorau'r byd sy'n cael y fraint o berfformio. Roedd y cyngerdd hwn, ynghyd â'r ymweliad â Brno, yn brawf digonol o rôl falch WNO fel llysgennad diwylliannol o bwys i Gymru.

Daeth y rhaglen prif lwyfan i ben gyda chynhyrchiad o Candide gan Leonard Bernstein. Wedi'i arwain gan Karen Kamensek, a gyda thîm creadigol dan arweiniad y cyfarwyddwr James Bonas, diddanodd Candide ei chynulleidfaoedd yn drylwyr, gan gynnwys mewn lleoliadau newydd fel Theatr Brycheiniog a'r Hall for Cornwall yn Truro. Yr hyn oedd yn gwneud y cynhyrchiad hwn yn wahanol oedd y rhyngweithio rhwng y cantorion byw a'r dyluniad a oedd yn cynnwys yn bennaf animeiddiadau tafluniedig gwych gan Grégoire Pont.

Wrth gwrs, mae llawer mwy i waith WNO na'i gynyrchiadau opera ar raddfa fawr a'i gyngherddau. Mae'r tîm Rhaglenni ac Ymgysylltu yn cynhyrchu arlwy eang wedi'i dargedu at wahanol sectorau yn y gymuned. Y prosiect mwyaf eleni oedd cynhyrchiad Opera Ieuenctid WNO o opereta Cherry Town, Moscow, Shostakovich. Roedd y cynhyrchiad o Cherry Town, Moscow a gyfarwyddwyd gan Daisy Evans a'i arwain gan Alice Farnham yn gyfle i dros 30 o gantorion yn y grŵp oedran hŷn i ganu mewn cynhyrchiad llawn ar lwyfan Theatr Donald Gordon i gyfeiliant Cerddorfa WNO. Bu ein grwpiau Opera Ieuenctid iau, a oedd yn cynnwys 65 o gantorion ifanc rhwng 11-18 oed, yn gweithio trwy gydol y flwyddyn tuag at eu harddangosfa flynyddol, The Pied Piper of Hamelin a The Crab that played with the Sea, yn seiliedig ar Just So Stories gan Rudyard Kipling. Cefnogwyd y gwaith hwn gan gymynrodd hael y diweddar David Seligman.

Yn awyrgylch mwy cartrefol Stiwdio Weston, fe wnaethom hefyd roi perfformiadau o The Shoemaker, comisiwn newydd a ddeilliodd o bartneriaeth rhwng WNO ac Oasis Caerdydd a Fio. Roedd cerddoriaeth a stori The Shoemaker yn ffrwyth misoedd o waith cydweithredol gydag artistiaid o bob disgyblaeth sydd wedi

ceisio noddfa yng Nghaerdydd, a'r canlyniad oedd opera deimladwy a'n hatgoffodd o'r pŵer a ddaeth o brosiect gwirioneddol gydweithredol.

Mae ein rhaglen 'Lles gyda WNO' wedi parhau i dyfu, gan gefnogi ystod eang o faterion iechyd, a gweithio mewn partneriaeth â'r GIG ledled Cymru.

## Datganiad y Cadeirydd (parhad)

Mae hyn yn cynnwys ein rhaglen Covid Hir, a ariennir gan saith bwrdd iechyd ledled Cymru, ein rhaglen ymwybyddiaeth o HIV gyda phobl ifanc a rhaglen newydd, sy'n cynnwys gweithio gyda thîm Pediatreg Bwrdd Iechyd Bae Abertawe, i gefnogi pobl ifanc sydd â gorbryder cyffredinol yn dilyn y pandemig. Trwy ein sesiynau rheolaidd yn wardiau Adsefydlu Geriatrig tri ysbyty, rydym yn parhau i ddod ag opera fyw i'r rhai na allant gael mynediad i'r celfyddydau mwyach. Ehangwyd ein 'Côr Cysur' ar gyfer pobl sy'n profi Dementia, eu gofalwyr a'u teuluoedd o Aberdaugleddau, i gynnwys Llandeilo a Llanelli.

Er ei bod yn amhosib anwybyddu'r llwybr anodd sydd o'n blaenau, mae edrych yn ôl ar uchafbwyntiau'r flwyddyn ddiwethaf yn ein hatgoffa pam ein bod ni yma yn y lle cyntaf. Mae sefydliad celfyddydol yn cael ei farnu yn ôl ansawdd yr hyn y mae'n ei wneud, ac mae ystod ac amrywiaeth ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn rhyfeddol. Ni fyddai'r gwaith hwnnw'n bosibl heb gefnogaeth barhaus ein randdeiliaid allweddol, ac rydym yn hynod ddiolchgar i Gyngor Celfyddydau Cymru ac Arts Council England, ynghyd â'r nifer fawr o ymddiriedolaethau, sefydliadau ac unigolion preifat sy'n cefnogi ein gwaith. Mae edrych ar wynebau ein cynulleidfaoedd ar ddiwedd perfformiad, boed hynny mewn ystafell ddosbarth neu theatr fawr, yn gyffredinol yn dweud wrthym fod y buddsoddiad yn ein gwaith wedi talu ar ei ganfed.

Yvette Vaughan Jones, Cadeirydd

Dyddiedig:

# Adroddiad Strategol

## Perfformiad Busnes

Dechreuodd y Cwmni'r flwyddyn gyda sefyllfa gadarn o ran cronfeydd ariannol wrth gefn. Cafodd y gostyngiad mewn cyllid gan Arts Council England (ACE) o 1 Ebrill 2023, effaith andwyol o £0.88m ar flwyddyn ariannol 2022-23. Gwaethygwyd hyn gan ddychweliad araf cynulleidfaoedd ar ôl pandemig Covid-19 a barhaodd i ysgogi lefel uchel o ansicrwydd yn ein rhagolygon ariannol ar gyfer y flwyddyn. Felly, roedd ein rhagolygon ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 yn cynnwys y gostyngiad mewn cyllid ACE ac incwm gwerthiant y swyddfa docynnau i ganiatáu amser i hyder y gynulleidfa wella a dychwelyd i theatrau.

Roedd rhaglen 2022-23 yn cynnwys saith teitl operatig. Roedd tymor yr Hydref yn cynnwys *The Makropulos Affair*, *La bohème*, *Migrations*, a chynhyrchiad yr Opera Ieuenctid o *Cherry Town, Moscow.* Hyd yn oed flwyddyn ar ôl i ni ddychwelyd o'r pandemig, roedd y cynulleidfaoedd yn dal yn is na'r disgwyl; ond ar ôl y Pasg, ac yn ystod tymor y Gwanwyn (*The Magic Flute* a *Blaze of Glory!*), gwelsom arwyddion o adferiad o'r diwedd. Daeth y tymor i ben gyda chynhyrchiad llwyddiannus o *Candide*, a aeth ar daith fer, oedd yn cynnwys rhai lleoliadau newydd i WNO. Gwerthwyd 21,000 o seddi yn nhymor yr Hydref, a oedd yn cynrychioli deiliadaeth 47% o gapasiti'r theatrau a 73% o'n targed ariannol. Yn y Gwanwyn, roedd y ffigyrau yn cynnwys 26,000 yn gwylio, 53% o gapasiti a 79% o'r targed ariannol.

## Cyrhaeddiad Daearyddol


Yn ystod y flwyddyn parhaodd ein gweithgaredd Rhaglen ac Ymgysylltu mewn cymunedau gan ganolbwyntio ar gyflwyno yng Nghymru a Gorllewin Canolbarth Lloegr.

**Rhaglen Ymgysylltu yn Lloegr**

Mae ein rhaglen yng Nghymru a Lloegr wedi bod yn pontio'r cenedlaethau, yn gweithio gyda'r blynyddoedd cynnar hyd at y rhai sydd wedi ymddeol ac wedi'i datblygu o amgylch cefnogi mwy o fynediad i bobl o gefndiroedd mwyafrif byd-eang ac incwm isel. Yn 2022-23, roedd gan 85% o'n cyfranogwyr yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr nodweddion gwarchodedig. Gwnaethom hefyd ganolbwyntio ein gwaith ar gefnogi mynediad at opera i bobl ifanc ag Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog (PMLD), gan weithio gydag academyddion ac ymarferwyr yn y maes hwn, ochr yn ochr â phartneriaeth barhaus ag Ysgol Arbennig Holte a Mayfield yn Birmingham; i greu 'Opera Tutti', cyngerdd operatig pwrpasol ar gyfer plant PMLD. Dyma'r opera gyntaf o'i math yn y DU ac rydym yn falch o fod wedi cyrraedd pwynt lle y gellir ei huwchraddio a'i chyflwyno ledled y DU ar ôl buddsoddiad pellach.

Yn ystod 2022 fe wnaethom hefyd fwynhau partneriaeth ffrwythlon gyda'r elusen i blant flaenllaw Barnardos yn gweithio gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o gam-drin domestig neu sydd wedi dioddef cam-drin domestig. Fe wnaethom barhau â'n partneriaeth â rhaglen Sanctuary St Chads, yn gweithio gyda cheiswyr lloches; a pharhau â pherthynas barhaus â Gwasanaethau Cerddoriaeth yn Birmingham a ledled yr Ardal Ddu trwy weithio'n helaeth gydag ysgolion. Fe wnaethom barhau i gyflwyno rhaglenni gyda Chonservatoire Birmingham a Phrifysgol Wolverhampton, gyda Phartneriaeth Addysg Ddiwylliannol Sandwell a Chonsortiwm Blynyddoedd Cynnar Birmingham. Fe wnaethom hefyd ddatblygu cysylltiadau gyda'r Partneriaethau Addysg Ddiwylliannol rhanbarthol i gryfhau ein rhwydwaith o amgylch anghenion lleol. Daeth WNO hefyd yn rhan o'r

rhwydwaith digidol trwy Ysgol Gelfyddydau Birmingham, rhan o Bartneriaeth Addysg Ddiwylliannol y ddinas gyda'r nod ar y cyd i gyrraedd pobl ifanc o gymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.




| Programmes and Engagement in the West Midlands | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost per year | Cost per head | Number of people reached: 22-23 | Number of young people reached: | Number of Sessions 22-23 | Number of people reached since 2017 |
| £154,000 | £25 | 5,972 | 4,072 | 10,099 | 49,000 |


Rhaglen Ymgysylltu yng Nghymru

Yng Nghymru, rydym wedi ymestyn ein cyrhaeddiad ar draws Gogledd Cymru, gan ddatblygu cysylltiadau newydd gyda Galeri Caernarfon a Chanolfan Gerdd William Mathias lle cynhaliwyd rhaglen Gymraeg lwyddiannus gydag ysgolion lleol mewn partneriaeth ag Invisible Traffick o Belfast a Brave Bear Trust International, sy'n gweithio i gadw plant yn ddiogel rhag cam-fanteisio.

Mae lles gyda WNO wedi parhau i dyfu, ac wedi cefnogi ystod eang o faterion iechyd mewn partneriaeth â'r GIG ledled Cymru, gan ein cefnogi i gyflawni ein rhaglen Covid Hir ac rydym yn parhau i weithio gyda phob un o'r 7 bwrdd iechyd. Mae ein rhaglen ymwybyddiaeth HIV gyda phobl ifanc yn defnyddio cerddoriaeth, canu a chyfansoddi wedi ein gweld yn partneru â Fast Track Caerdydd, Pride Cymru a Mermaids. Sefydlwyd rhaglen newydd yn gweithio gyda thîm Pediatrig Bwrdd Iechyd Bae Abertawe, i gefnogi pobl ifanc â gorbryder cyffredinol yn dilyn y pandemig mewn partneriaeth ag Ysgol Gyfun Pontarddulais. Mae ein perthynas â'r Byrddau Iechyd wedi ein helpu i sicrhau buddsoddiad ychwanegol gan weithio ar faterion iechyd eraill, gan gynnwys adferiad o ganser a thrawma. Rydym wedi bod yn manteisio i'r eithaf ar ein dysgu i gefnogi materion iechyd ehangach. Mae buddsoddiad pellach gan Ganolfan Ganser Felindre, Caerdydd, wedi ein galluogi i ddatblygu partneriaeth sy'n dod i'r amlwg i edrych ar sut y byddwn yn darparu cyrsiau adsefydlu optimeiddio anadlu ar gyfer cleifion canser yr ysgyfaint a chymorth ar gyfer rheoli gorbryder i gleifion sydd newydd gwblhau triniaeth radiotherapi radical. Byddwn yn troi'r bartneriaeth beilot hon yn ddarn ffurfiol o ymchwil y flwyddyn nesaf, yn amodol ar gymeradwyaeth moeseg.

Rydym wedi parhau i ddod ag opera fyw i bobl na allant bellach gael mynediad at y celfyddydau na chymryd rhan ynddynt drwy ein sesiynau rheolaidd yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Ysbyty Dewi Sant Caerdydd, ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn y wardiau Adsefydlu Geriatrig, ar gyfer cleifion oedrannus. a'u teuluoedd a thrwy weithio mewn cartrefi gofal ar draws De Cymru. Rydym hefyd wedi bod yn ymateb i anghenion poblogaeth sy'n heneiddio a'r rhai sy'n profi arwahanrwydd cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, drwy ehangu ein 'Côr Cysur' ar gyfer pobl sy'n profi Dementia, a'u gofalwyr a theuluoedd.

Yng Nghaerdydd, mae ein partneriaeth pum mlynedd gyda Chanolfan Oasis, elusen sy'n cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid, wedi parhau gyda nifer o ddigwyddiadau opera a cherddoriaeth Iranaidd a dathliad ar gyfer Nowruz, sef Blwyddyn Newydd Iran; ochr yn ochr â The Shoemaker, gwaith sydd newydd ei gomisiynu, wedi'i ysgrifennu, ei gyfansoddi a'i berfformio gan artistiaid sy'n rhan o'r bartneriaeth rhwng Oasis a WNO.




Drwy gydol y cyfnod, mae lefelau cyllid Arts Council England a Chyngor Celfyddydau Cymru yn rhoi lefel uchel o sicrwydd sydd ei angen i gynllunio tymor llawn o weithgarwch. Rydym hefyd yn hynod o ddiolchgar i nifer o unigolion, ymddiriedolaethau a sefydliadau, a phartneriaid corfforaethol oedd wedi parhau i gynorthwyo WNO drwy gydol y cyfnod hynod heriol hwn. Mae gwariant ar draws pob rhan o'r cwmni wedi ei reoli'n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

## Ffactorau allanol

Wrth i WNO barhau i weithio o fewn amgylchiadau heriol a achosir gan yr ansicrwydd economaidd parhaus o adferiad ar ôl Covid, Brexit, a'r argyfwng costau byw. Mae dychweliad ein cynulleidfaoedd i theatrau a pherfformiadau byw yn parhau i fod yn her, ond rydym yn gweld gwelliant cadarnhaol mewn gwerthiant tocynnau ar gyfer tymor yr hydref 2023.

Mae nod 'ffyniant bro' llywodraeth y DU i **gynyddu ffyniant, ehangu cyfleoedd, a sicrhau nad oes unrhyw ranbarth yn cael ei adael ar ôl** wedi cael effaith sylweddol ar gytundebau cyllido Arts Council England rhwng 1 Ebrill 2023 a Mawrth 2026. Mae ardal weithredu WNO o fewn y model rhanbarthol o ddarparu opera yn Lloegr wedi'i hailddiffinio i ganolbwyntio ar Dde-orllewin Lloegr. Felly, mae prosiectau a gweithgareddau cymunedol blaenorol a gyflwynwyd o ganolbwynt WNO yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr wedi cael eu hadolygu er mwyn ddeall a oes capasiti a gallu adnoddau ar gael yn Ne Orllewin Lloegr. Ar hyn o bryd, mae WNO naill ai'n adnewyddu partneriaethau presennol neu'n nodi partneriaethau newydd i hwyluso'r

gweithgaredd Rhaglen ac Ymgysylltu yn ardaloedd Plymouth a Southampton. Mewn ymateb i'r protestio proffil uchel i gynnal adolygiad opera ar raddfa eang yn cynnwys y cwmnïau opera, comisiynodd Arts Council England (ACE) ddarn o waith yn ystod haf 2023 ac rydym yn dal i aros am y canlyniad a'r argymhellion.

Mae rownd ddiweddar yr adolygiad buddsoddi ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru ar y gweill ac mae WNO wedi cael cyhoeddiad amodol o ddyraniad tair blynedd o £4.1 miliwn sy'n cyfateb i doriad cyllid o £0.4 miliwn o fis Ebrill 2024. Mae'r cyhoeddiad dros dro yn amodol ar ddyraniad cyllideb Llywodraeth Cymru i Gyngor Celfyddydau Cymru, a dorrwyd tua 10% yn hysbysiad cyllideb ddrafft mis Rhagfyr 2023. Mae hyn yn dal i fod yn amodol ar gadarnhad gan Lywodraeth Cymru, mae WNO yn rhagweld y bydd dyraniad y cwmni'n cael ei gadarnhau erbyn diwedd mis Chwefror 2024.

Mae WNO yn cydnabod bod gweithio yn yr amgylchedd heriol hwn yn gofyn i'r cwmni fod yn fwy ymatebol i anghenion amrywiol ein cynulleidfaoedd sy'n newid yn barhaus ac i gyflawni ein cynnig yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon. Er mwyn parhau i gyflwyno perfformiadau o safon fyd-eang a'n gweithgareddau sydd wedi eu targedu yn y cymunedau a wasanaethwn, mae angen i ni ail siapio ein model cyflwyno i ymateb i anghenion ein hamgylchedd a'n cynulleidfaoedd sy'n newid yn barhaus. Bydd y model gweithredu newydd yn gwella'r perthnasoedd effeithiol a chryf sydd eisoes ar waith gennym ac yn parhau i ddatblygu a meithrin talent i sicrhau bod yr ecoleg gelfyddydol yn parhau'n gryf yng Nghymru ac yn y DU.

## Cynulleidfaoedd

Parhaodd Opera Cenedlaethol Cymru i adfer yn ystod tymor 2022-2023. Er bod niferoedd y gynulleidfa wedi cynyddu, ni ddigwyddodd hynny ar y cyflymdra a ragwelwyd. Cadarnhaodd arolwg a gynhaliwyd yn ystod y tymor blaenorol newid disgwyliedig yn ymddygiad y gynulleidfa. Cynyddodd archebion hwyr yn sylweddol, yn debygol o ganlyniad i bryderon ynghylch costau byw, sy'n duedd ehangach. Er gwaethaf hyn, cynyddodd refeniw'r swyddfa docynnau 24% yn 2022-2023. Cyflawnwyd hyn gyda nifer is o berfformiadau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Datgelodd canlyniadau arolygon ar ôl perfformiadau a gynhaliwyd yn ystod Tymor 2022-2023 fod 82% o'r ymatebwyr wedi bod i berfformiadau WNO yn y gorffennol. Roedd hyn yn gyson â'r ffigurau a gofnodwyd yn 2018-2019. Mae hyn yn awgrymu bod ffyddlondeb y gynulleidfa i WNO wedi aros yn sefydlog dros y blynyddoedd. Felly, dylai datblygu'r gynulleidfa anelu at adeiladu ar y ffyddlondeb hwn yn ogystal â denu cynulleidfaoedd newydd o gefndir mwy amrywiol.

Yn ystod hydref 2022, bu cynnydd mawr mewn achosion Covid a achosodd ansefydlogrwydd ac ansicrwydd ymhlith archebwyr tocynnau. O ganlyniad, effeithiwyd ar hyder y gynulleidfa i ddychwelyd i theatrau. Fodd bynnag, llwyddodd WNO i ddenu cynulleidfaoedd newydd i gynyrchiadau'r Tymor gyda rhaglen gytbwys. Cafodd ein cynhyrchiad o The Makropulos Affair ei ganmol gan y gynulleidfa ac adolygwyr. Elwodd yn fawr o argymhellion ar lafar ac adolygiadau cryf, yn enwedig gan brynwyr tocynnau opera traddodiadol. Yn ychwanegol, roedd La boheme yn gynhyrchiad rhagorol a lwyddodd i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Roedd natur draddodiadol y cynhyrchiad yn caniatáu i WNO werthu'r profiad opera clasurol i'r rhai sydd ag opera ar eu "rhestr bwced". Fodd bynnag, roedd gan rai lleoliadau dri pherfformiad, a oedd efallai un yn ormod ar gyfer cynhyrchiad sydd wedi cael ei adfywio'n rheolaidd. Llwyddodd Migrations i ddenu cynulleidfa iau a fwy amrywiol. Nododd yr arolwg ar ôl y perfformiad fod 16% o'r ymatebwyr yn 44 oed neu'n iau, o'i gymharu ag 11% ar gyfer cyfartaledd yn 2022-2023. Ar ben hynny, gostyngodd nifer yr ymatebwyr oedd yn uniaethu fel Gwyn o 98% i 90%.

Yn ystod Tymor y Gwanwyn 2023, cawsom gyfle i barhau i adeiladu ar y gwaith cynulleidfa llwyddiannus a gyflawnwyd gyda La boheme trwy gyflwyno Blaze of Glory! Roedd y dull opereta ysgafn yn croesawu cyfuno elfennau o theatr gerdd. Cafodd Cymreigrwydd y cynhyrchiad ymateb cadarnhaol hefyd gan gynulleidfaoedd

yng Nghymru a Lloegr. Gydag 11 o berfformiadau, rhagorodd y cynhyrchiad ar ei dargedau cynulleidfa o 106% a chyflawnodd darged ariannol o 114%.

# Adroddiad Strategol (parhad)

Mewn cyferbyniad, roedd ein cynhyrchiad o The Magic Flute yn gynhennus, ac efallai bod tri pherfformiad yn ystod y daith wedi bod yn ormod. Roedd hyn yn rhannol oherwydd adolygiadau cymysg, a gafodd effaith ar fomentwm gwerthiannau tocynnau. Nod y cynhyrchiad cyfoes hwn oedd apelio at gynulleidfa iau. Er ei bod yn anodd pennu a gyflawnwyd hynny drwy ddata, mae arolygon a thystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod rhywfaint o lwyddiant o ran denu cynulleidfa iau. Helpodd y teitl i yrru gwerthiannau i gynulleidfa fwy traddodiadol.

Drwy gydol Tymor 2022-2023, parhaodd rhaglen a gwaith ymgysylltu WNO i dyfu mewn ehangder a chyrhaeddiad trwy brosiectau a oedd yn ategu ein gweithgarwch prif lwyfan a'n prosiectau annibynnol yn ein cymunedau. Trwy'r gwaith hwn mae WNO yn cyrraedd miloedd o gynulleidfaoedd a chyfranogwyr newydd na fyddent fel arall yn cael y cyfle i brofi opera.

Wrth symud y cynhyrchiad Opera Ieuenctid, Cherry Town, Moscow ymlaen i'r prif lwyfan gwelwyd llwyddiant mawr wrth ehangu'r sylfaen gynulleidfa draddodiadol. Yn hytrach na chyfyngu'r cynhyrchiad i deulu a ffrindiau'r cyfranogwyr, cyrhaeddodd gynulleidfa ehangach o 1,000 o unigolion dros ddau berfformiad. Roedd hyn hefyd yn caniatáu i'r cyfranogwyr brofi cynhyrchiad opera llawn, gan roi cyfle anhygoel iddynt. Mae Chwarae Opera YN FYW yn denu cynulleidfa iau, gan gynnwys llawer nad ydynt wedi profi perfformiadau WNO o'r blaen. Roedd y perfformiad yng Nghaerdydd yn llwyddiant ysgubol gyda phob tocyn wedi'i werthu. Er bod cynulleidfaoedd mewn lleoliadau eraill yn dal i dyfu, mae cynnydd cyson yn amlwg ac os ydym am adeiladu cynulleidfaoedd opera yfory yna mae'n hanfodol cynnal ymweliadau cyson â'r lleoliadau hyn er mwyn datblygu cymaint â phosibl ar y gynulleidfa. Yn yr un modd, bu'r gyfres Cyngherddau Ysgolion yn hynod boblogaidd, gyda phob un o'r pedwar lleoliad wedi gwerthu allan ac wedi cyrraedd cyfanswm o 4000 o ddisgyblion. Mae'n galonogol gweld cymaint o alw am y mentrau addysgol hyn, sy'n amlygu pwysigrwydd ymgysylltu ag ysgolion a meithrin cariad at opera ymhlith y genhedlaeth iau.

Ochr yn ochr â'r perfformiadau hyn, mae'r tîm Rhaglen ac Ymgysylltu yn ein cymunedau bob dydd yn ysbrydoli plant, pobl ifanc, teuluoedd, rhai sy'n ceisio noddfa, rhai â chyflyrau iechyd hirdymor a grwpiau sy'n pontio'r cenedlaethau, ymhlith eraill, i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o opera trwy brosiectau fel Lles gyda WNO, y Côr Cysur; Opera Tutti a The Brave Project. Yn ystod 2022-2023 helpodd y gwaith hwn i WNO gyrraedd bron 80,000 o bobl.

Mae WNO wedi ymrwymo i gyflwyno operâu sy'n cyfleu ysbrydoliaeth ac yn darparu profiadau eithriadol i gynulleidfaoedd presennol a newydd. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu mentrau datblygu cynulleidfaoedd, ac yn cydweithio â'n partneriaid teithiol ac o fewn cymunedau i ddod ag opera i gynifer o bobl â phosibl.

## Datblygu a Chysylltiadau Allanol

Trwy gydol 2022-2023, bu ein taith yn gwbl ryfeddol. Gwnaethom drefnu 263 o berfformiadau rhagorol yn cynnwys perfformiadau prif lwyfan, cyngherddau a pherfformiadau ieuenctid. Buom ar deithiau cenedlaethol a rhyngwladol, yn meithrin doniau newydd, a thanio cariad at opera a cherddoriaeth glasurol yng nghalonnau'r hen a'r ifanc.

Roedd llwyddiant yr ymdrechion hyn yn bosib diolch i gefnogaeth ddiysgog ein syndicetiau haelionus,

Cyfeillion a Phartneriaid WNO, rhoddwyr, ymddiriedolaethau a sefydliadau, a phartneriaid corfforaethol. Gyda'i gilydd fe wnaethant gyfrannu 6% o incwm anghyfyngedig WNO, sy'n amlygu'r rôl sylweddol a chwaraeir gan y ffynonellau dyngarol hael hyn.

# Adroddiad Strategol (parhad)

Nid dim ond rhan o'n stori mo dyngarwch, dyma'r hanfod sy'n tanio ein dyheadau gweledigaethol, gan greu effaith barhaol a sicrhau bod atyniad opera a cherddoriaeth glasurol yn mynd y tu hwnt i amser ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Er ein bod yn cydnabod yn ddiolchgar gefnogaeth ddiysgog Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Celfyddydau Lloegr, rydym yn ymfalchïo'n fawr mewn cynhyrchu incwm yn annibynnol trwy ddyngarwch a meithrin partneriaethau corfforaethol llewyrchus.

Wrth wraidd ein taith mae meithrin ein trysorau pennaf: ein hartistiaid a'n gweithwyr celfyddydol eithriadol. Mae eu doniau, boed ar y llwyfan, y tu ôl i'r llenni, yn yr ystafell ddosbarth neu mewn neuaddau cymunedol, yn rhoi bywyd i'n cenhadaeth, ac yn ysbrydoli nid yn unig ein cynulleidfaoedd ond hefyd ein partneriaid corfforaethol a'n gweledyddion dyngarol.

Mae ein breuddwydion yn uchelgeisiol, ac maent yn cael eu cynnal gan gefnogaeth uchelgeisiol ein cefnogwyr a'n partneriaid gweledigaethol. I Lywodraeth Cymru, Cynghorau Celfyddydau, rhoddwyr, partneriaid corfforaethol, a phob unigolyn sydd wedi cyfrannu, mae eich presenoldeb yn ein stori yn ein grymuso i ddatblygu ein gweledigaeth o gyfoethogi bywydau trwy opera a cherddoriaeth glasurol.

Wrth i ni edrych ymlaen, mae ein ffocws yn symud tuag at sicrhau cynaliadwyedd a buddsoddiad hirdymor trwy waddol. Nod y cam strategol hwn yw sicrhau dyfodol WNO, gan alluogi cynllunio manwl iawn ar gyfer y 5-10 mlynedd nesaf a gosod y llwyfan ar gyfer gwaddol y sefydliad am y 50-100 mlynedd nesaf.

Mae ein diolchgarwch dwfn yn ymestyn i bawb sydd wedi cefnogi WNO hyd yma. Mae eich ymrwymiad a'ch haelioni yn gwneud ein dyheadau yn gyraeddadwy, ac rydym yn hynod ddiolchgar am yr ymddiriedaeth a'r gred yn y rhodd o opera. Yn enwedig yn ystod cyfnodau heriol yn ariannol.

## Capasiti a Diwylliant Cyfundrefnol

I gynorthwyo strategaeth WNO mae Strategaeth y Bobl newydd wedi ei datblygu, a fydd yn canolbwyntio ar ddarparu gweithlu mwy amrywiol, cyfoes, hyblyg, creadigol ac effeithiol. Bydd gennym arweiniad ysbrydoledig cryf a chydweithwyr sy'n ymgysylltu sy'n deall gweledigaeth a chynllun strategol WNO a'r cyfraniad a wneir i'w cyflawni. Byddwn yn sicrhau ein bod yn gwrando ar ein cydweithwyr ac yn siapio penderfyniadau busnes ar gyfer y dyfodol.

Bydd cyflawni nodau ac amcanion ein strategaeth busnes yn gofyn am drawsnewid sefydliadol. Daw'r effaith fwyaf yn nhermau "profiad cyflogaeth WNO" gan y rheolwyr sy'n gweithio, datblygu, a meithrin perthnasoedd gyda'u timau o ddydd i ddydd. Rydym eisiau sicrhau bod po cydweithiwr yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi am y gwaith a wneir, wrth sicrhau ein bod yn gwrando arnynt i siapio ein busnes.

Fel cyflogwr sydd wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth, rydym yn deall ein cyfrifoldeb i feithrin sefydliad mwy cynhwysol a byddwn yn gweithio gyda'n timau i gyflawni achrediad ar gyfer dulliau cynhwysol o weithio. Byddwn hefyd yn cofleidio ein cymwyseddau cymdeithasol gan ddarparu cyfleoedd pellach i ymgysylltu ein cydweithwyr i gynorthwyo ein cymunedau.

## Cyllid

Mae dibynnu ar gyllid cyhoeddus a'r bregusrwydd mae hynny'n ei gyflwyno i bolisi'r llywodraeth a thoriadau cyllid yn bryder sydd angen mynd i'r afael ag o. Er bod WNO yn symud i gyfnod o sicrwydd cyllid cyhoeddus, mae'r toriadau diweddar o £2.2 miliwn i'n cyllid gan Arts Council England a gostyngiad arfaethedig o £0.4 miliwn yn ein cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn golygu bod trawsnewid model gweithredu'r cwmni yn flaenoriaeth. Cydnabyddir nad yw'r lefel o drawsnewid sydd ei angen i ail-lunio model cwmni teithio sydd â chontract llawn yn y tymor byr yn gyraeddadwy, oherwydd amserlenni ailstrwythuro mewnol. Ar ben y cymhlethdod ychwanegol bod tymhorau'n cael eu cynllunio dwy i dair blynedd ymlaen llaw,

# Adroddiad Strategol (parhad)

Sicrhaodd WNO £3.25 miliwn o gyllid Cam 2 gan raglen Transform Arts Council England dros gyfnod o ddwy flynedd. Nod y cyllid ychwanegol yw hwyluso'r newid a helpu gydag unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r trawsnewid.

Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd Arts Council England y byddai'r Rhaglen Buddsoddi Portffolio Cenedlaethol 2023-26 yn cael ei hymestyn am flwyddyn arall. Bydd hyn yn mynd â'r dyraniad presennol i fis Mawrth 2027.

Felly, rydym yn parhau i fabwysiadu dull graddol i ail-lunio ein cynnig gyda dyddiad targed o fod mewn sefyllfa ariannol gynaliadwy erbyn haf 2025. I gefnogi'r dull graddol hwn mae strategaeth ariannol yn cael ei datblygu i gefnogi'r model cyflawni gweithredu newydd rhwng 2024 a 2027. Bydd hyn yn cynnwys adolygu ac ail-drafod trefniadau cytundebol cydweithwyr WNO, repertoire sy'n cadw ansawdd ac ymgysylltiad â'r gynulleidfa a phatrymau teithiol sy'n fforddiadwy.

## Bwrdd

Bu i Fwrdd WNO gyfarfod 6 gwaith yn ystod 2022/23.

Ym mis Hydref 2023 ymddiswyddodd tri aelod ac ym mis Medi 2023 penodwyd pum ymddiriedolwr newydd. Mae ymddiriedolwr arall i fod i ymddeol ym mis Chwefror 2024. Cafodd Cadeirydd y Bwrdd ei ail-ethol ym mis Medi 2023 am gyfnod a gytunwyd gan y Bwrdd. Gellir dod o hyd i fanylion yr adroddiad hwn yn nodyn y Cyfarwyddwyr a Swyddogion ar dudalen 56 Gwnaed bob penodiad yn dilyn proses recriwtio a dethol agored a thryloyw, a oedd yn cynnwys defnyddio arbenigwyr hysbysebu, recriwtio a dethol.

## Is-gwmnïau

Mae gan WNO ddau is-gwmni y mae'n llwyr berchen arnynt. Ceir manylion am y ddau yn nodyn 18.

Sefydlwyd **Gwasanaethau Theatraidd Caerdydd Cyfyngedig** fel gweithdy mewnol ar gyfer WNO yn 1984 ac mae ganddo enw da am adeiladu golygfeydd o ansawdd eithriadol ar gyfer rhai o gwmnïau celfyddydau perfformio, atyniadau ymwelwyr ac arddangosfeydd mwyaf blaenllaw'r byd.

Yn ystod 2022/23 darparodd Gwasanaethau Theatraidd Caerdydd wasanaethau ar gyfer sawl gwahanol sefydliad yn cynnwys:

The Bridge Theatre, ATG Productions, Buddy the Elf Ltd, Summer Nights Productions, Gŵyl Opera Glyndebourne Festival Opera, y Tŷ Opera Brenhinol, Royal Court Theatre, Mamma Mia The Party, Factory International, Chichester Festival Theatre, Opera Cenedlaethol Lloegr, Wessex Grove Productions, Opera

North, y Theatr Genedlaethol, National Theatre Wales, Time Travel Productions, Bad Wolf, Canolfan Mileniwm Cymru ac Opera Cenedlaethol Cymru,

Sefydlwyd **Cynyrchiadau WNO Cyfyngedig** yn 2014 i greu a darparu cynyrchiadau theatraidd ar gyfer cwmnïau Grŵp Opera Cenedlaethol Cymru.

### Budd cyhoeddus

Mae buddion cyhoeddus Opera Cenedlaethol Cymru'n dod o dan ei weledigaeth a gwerthoedd fel a welir ar dudalen 2.

Mae'r cyfarwyddwyr wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennol ar fuddion cyhoeddus wrth adolygu nodau ac amcanion y Cwmni ac wrth gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol. Yn benodol, mae'r cyfarwyddwyr wedi ystyried sut fydd y gweithgareddau a gynlluniwyd yn cyfrannu at nodau ac amcanion y Cwmni.

## Adroddiad Strategol (parhad)

Cynllunnir ein gweithgareddau cyn y flwyddyn yr adroddir arni, ac o ddechrau'r cyfnod cynllunio rhoddir ystyriaeth i fuddion cyhoeddus tebygol y gweithgareddau hynny, a'r ffordd y maent yn cyflawni cenhadaeth y Cwmni. Ceir manylion am y gweithgareddau a gyflawnir, yn cynnwys gweithgareddau a anelir at annog grwpiau cynulleidfa penodol, eu gweld yn adolygiad elfen 1 o'r perfformiad busnes dan yr adran Cynnwys a Chyflwyniad Artistig.

Mae aelod o staff ar gael ym mhob un o'n perfformiadau a digwyddiadau er mwyn ymateb i faterion sy'n ymwneud â'r cyfranogwr neu'r gynulleidfa. Anogir adborth a chyfranogiad gan y gynulleidfa yn ein rhaglen, drwy arolygon, drwy ein gwefan a thrwy ein gweithgareddau y tu allan i'r prif gynyrchiadau.

Mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn llawer o'n cynyrchiadau a gweithgareddau; mae ein holl brosiectau sy'n ymwneud â phobl ifanc yn cael eu cynnal gan weithwyr ac artistiaid proffesiynol addas.

Ein nod yw bod o fudd i'r cyhoedd ehangaf posib; i annog cynulleidfaoedd a chyfranogwyr, gan sicrhau ein bod yn perfformio mewn theatrau hygyrch ym mhrif drefi a dinasoedd Cymru a Lloegr. Mae ein hadran Ieuenctid a Chymuned yn annog cynulleidfaoedd drwy weithgareddau mewn cymunedau ac ysgolion. Mae ein hallbwn marchnata a'n gwefan yn annog cynulleidfaoedd o bob cefndir ac mae ein polisi prisio yn seiliedig ar ymrwymiad i fforddiadwyedd lle bynnag yr ydym yn perfformio, drwy brisiau fforddiadwy i berfformiadau opera a gweithgareddau am ddim.

### Cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae'r Cwmni'n monitro ei ddefnydd o ynni ac effaith amgylcheddol a chaiff ei gynyrchiadau a setiau eu hailgylchu'n helaeth. Mae gan y Cwmni gymhellion ar waith i gydweithwyr leihau eu heffaith amgylcheddol wrth deithio ac anogir y defnydd o drenau lle pryd bynnag fo'n bosib. Rydym yn parhau i asesu ein cynyrchiadau yn y dyfodol drwy ddefnyddio *Theatre Green Book*, menter ar draws y diwydiant i leihau ôl troed carbon y sector celfyddydau perfformio. Mae cynlluniau wedi'u rhoi ar waith i adolygu newid ein rig goleuo i osodiadau LED ac adfywio'r fflyd HGV i leihau'r defnydd o danwydd ac ôl troed carbon ein gweithgareddau teithiol.

## Yr iaith Gymraeg

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) ('y Rheoliadau) yn nodi safonau darpariaeth gwasanaethau; safonau llunio polisïau; safonau gweithredol; a safonau cadw cofnodion.

Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn un o 32 sefydliad y mae'r Rheoliadau yn benodol berthnasol iddo ac felly cydymffurfiodd y sefydliad yn llawn â'r Safonau ers diwedd Gorffennaf 2017. Cawsom un cwyn gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2023. Mae'r ymchwiliad bellach wedi'i gwblhau. Roedd hyn mewn perthynas â Chwrs Gyrfa a Datblygiad Proffesiynol ar y cyd a ddarparwyd gennym ni mewn partneriaeth â BBC NOW ar gyfer athrawon Cyfnod Allweddol 2, i gefnogi dealltwriaeth athrawon o gyflwyno canu fel rhan o'r cwricwlwm cerddoriaeth mewn ysgolion cynradd. Nod yr ymchwiliad oedd gweld a oedd WNO wedi methu â chydymffurfio â Safon 80 sy'n nodi: "Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg." Ar yr achlysur hwn, er ein bod wedi hysbysebu y gallai'r cwrs fod ar gael yn Gymraeg ar ôl gwneud cais wrth gofrestru, ni wnaeth yr hyperddolen o'n gwefan gofrestru dewis iaith y cyfranogwyr, felly nid oeddem yn ymwybodol bod cyfranogwr wedi dewis Cymraeg wrth gofrestru ac felly ni chafodd y cwrs ei gynnal yn Gymraeg y tro hwn.

Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad bod gan Opera Cenedlaethol Cymru ddyletswydd i gydymffurfio â Safon 80 bob amser a phan fyddwn yn hysbysu cyfranogwyr am unrhyw gwrs addysg sydd ar gael i'r cyhoedd, rhaid i ni sicrhau bod cwrs cyfrwng Cymraeg ar gael hefyd. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod pob ffurflen gofrestru ar gyfer cyrsiau addysg yn cynnwys opsiwn i unigolyn ddewis gwneud cwrs cyfrwng Cymraeg. Dywedwyd bod yn rhaid i ni ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol i Gomisiynydd y Gymraeg fod camau gorfodi 1 a 2 wedi'u cwblhau cyn pen 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r penderfyniad terfynol. Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig hon nawr wedi'i chyflwyno i'r Comisiynydd ac mae'r ymchwiliad wedi'i ddatrys.

## Adolygiad Ariannol

Dangosir Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y Grŵp a'i is-gwmnïau ar dudalen 25.
Yn gyffredinol, arweiniodd gweithgareddau'r Grŵp at adnoddau incwm net o £179,000 (2022 - £31,000).

### Incwm

Cynyddodd cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd £3,000 i £18,165,000 (2022 – £18,162,000).

### Gwariant

Cynyddodd gwariant cyffredinol eleni £555,000 i £20,724,000 (2021 – £20,169,000).
Cynyddodd gwariant ar weithgareddau elusennol £210,000 ac mae'n cyfrif am 88% o'r holl wariant (2022 – 88%).

### Is-gwmnïau

Mae **Gwasanaethau Theatraidd Caerdydd Cyfyngedig** yn galluogi WNO i gynnal ei gyfleusterau cynhyrchu setiau rhagorol ei hun ac mae'n parhau i adeiladu setiau i nifer o gleientiaid eraill. Gwnaeth yr is-gwmni golled ar ôl trethiant o £7,242 (2022-elw o £95,199) yn ystod y flwyddyn ar ôl cyfrannu cyfran briodol o gostau eiddo a gorbenion i WNO.

Sefydlwyd **Cynyrchiadau WNO Cyfyngedig** yn 2014 er mwyn creu a darparu cynyrchiadau theatraidd ar gyfer y Grŵp.
Ceir manylion am y ddau is-gwmni yn nodyn 18.

## Asedau sefydlog, buddsoddiadau ac arian parod

Cyfanswm yr asedau sefydlog a brynwyd yn ystod y flwyddyn oedd £64,000 (2022- £33,000). Roedd hyn yn bennaf yn gostau amnewid cyfrifiaduron ac offer.

Ar ôl buddsoddi'r cyllid y cyfeirir ato uchod, ar ddiwedd y flwyddyn roedd gan y grŵp £2,751,000 o arian parod yn y banc (2022 – £3,590,000).

Mae'r Grŵp yn cadw ei arian parod ym manciau clirio mwyaf y DU. Mae'r Pwyllgor Buddsoddi'n adolygu trefniadau bancio a pholisi buddsoddi'r Grŵp yn rheolaidd ac ym mis Mai 2014 buddsoddodd £2,332,000 o gronfeydd sy'n cael eu cadw am y tymor hir (dros dair blynedd) mewn portffolio buddsoddiad. Ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Awst 2022 gwnaed enillion ar incwm o 3.26% o'r portffolio sydd yn unol â'r targed incwm o 2.8% i 3.5% y flwyddyn. Mae'r buddsoddiadau hyn, sy'n fuddsoddiadau a gwarannau sy'n cael eu masnachu'n agored, yn cael eu dosbarthu fel buddsoddiadau asedau sefydlog gyda gwerth marchnadol o £3,038,000 ar ddiwedd y flwyddyn (2022 - £3,115,000) (gweler nodyn 7b).

## Pensiwn

Cyfrannodd cyflogeion y Grŵp at gynllun pensiwn cyfraniad diffiniedig; nid oedd cynllun buddion diffiniedig y Grŵp yn agored i ymgeiswyr newydd a chroniadau'r dyfodol ar 5 Ebrill 2009 ond mae'n parhau i gael ei gynnal gan yr ymddiriedolwyr ar gyfer ei bensiynwyr (gweler nodyn 17). Mae'r gwarged ar y cynllun buddion wedi'u diffinio'n dod i gyfanswm o £4,186,000 ar 31 Awst 2023 (2022 –gwarged o £2,696,000) gydag enillion actiwaraidd o £1,374,000 yn cael eu gweld yn ystod y flwyddyn (2022 - enillion o £1,664,000). Mae'r symudiadau hyn yn adlewyrchu'r newidiadau yng ngwerth yr asedau gwirioneddol a rhwymedigaethau amcangyfrifedig yn y cynllun, ac nad ydynt yn cynrychioli asedau neu rwymedigaethau net.

## Rheoli risg

Mae'r Bwrdd yn cydnabod ei gyfrifoldebau cyfreithiol i ddarparu Datganiad Rheoli Risg blynyddol er mwyn dangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth briodol i risgiau sylweddol yr elusen a'u bod yn fodlon â digonoldeb y systemau sydd wedi eu sefydlu i reoli'r risgiau hynny (Rheoliadau (Cyfrifon ac Adroddiadau) Elusennau 2008).

Dirprwyir awdurdod am adolygiad manwl i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, sy'n cwrdd bob chwe mis. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys dau Ymddiriedolwr Bwrdd, dau aelod allanol sydd â gwybodaeth/profiad arbenigol a hefyd yn bresennol bydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Chadeirydd yr Ymddiriedolwyr fel aelod Ex-Officio. Gwneir canfyddiadau ac argymhellion i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr cyflawn, ynghyd â chrynodeb o'r gofrestr risg.

Mae'r bwrdd yn ystyried risg fel cyfleoedd/ansicrwydd a all effeithio ar ei allu i gyflawni ei weledigaeth/cenhadaeth/strategaeth neu a allai beryglu cydymffurfiad WNO â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

Drwy weithredu dull penodol, nod y Bwrdd yw asesu a phennu ei awydd ei hun i'r risg a nodwyd, sy'n galluogi'r tîm gweithredol i'w rheoli'n briodol. Er enghraifft a yw'r Bwrdd yn:

- wrth-risg, lle mae osgoi'r risg yn amcan sefydliadol allweddol;
- cytbwys o ran risg, lle mae'r bwrdd yn ffafrio opsiynau darpariaeth sydd â lefel isel o risg cynhenid/sydd efallai â photensial cyfyngedig i fod yn wobrwyol neu;
- ceisio risg lle mae'r bwrdd efallai'n awyddus i fod yn arloesol ac felly'n barod i ddewis opsiynau sy'n cynnig gwobrwyon uwch o bosib (er bod mwy o risg cynhenid iddynt).

Wrth adnabod ac asesu risg, mae WNO yn edrych ar ffactorau mewnol ac allanol a all effeithio ar ei amcanion strategol, yn ogystal â'i sefyllfa ariannol. Yn ogystal, mae yna ddangosyddion allweddol blaenllaw ac

ymlusgol, a all ddylanwadu ar ei allu i dros neu dan gyflawni ei nodau. Mae’r ardaloedd risg wedi’u halinio i amcanion strategol y sefydliad ac wedi’u categoreiddio i’r canlynol:

a) Ariannol (e.e. colli incwm, rhwymedigaethau pensiwn, llif arian, cronfeydd)
b) Gweithredol (e.e. sgiliau staff/llesiant/cytundebau cyfunol, adnoddau, parhad busnes)
c) Enw da (ansawdd artistig, cytundebau partner)
d) Strategol (e.e. hinsawdd economaidd, polisi’r llywodraeth)

Mae’r sefydliad hefyd yn ystyriol o risgiau sylweddol posib eraill, sy’n seilio a chroesi bob un o’r uchod:

e) Cyfreithiol (e.e. tor-amod Iechyd a Diogelwch, cyfrifoldebau cyfreithiol/rheolaethol, tor-ymddiriedaeth)
f) Llywodraethu (e.e. mesurau rheoli sefydliadol, sgiliau ymddiriedolwyr, gwrthdaro buddiannau)

Mae’r Bwrdd yn cydnabod bod risgiau’n codi a gostwng, yn dibynnu ar ffactorau allanol a mewnol. Felly, mae’r gwaith o reoli’r risgiau hyn yn broses ddeinamig sy’n gofyn am adolygiad rheolaidd. Mae agwedd y sefydliad tuag at reoli risg yn amlochrog, yn dibynnu ar y math o risg ac mae’n cynnwys:

- atal y gweithgaredd er mwyn osgoi’r risg yn gyfan gwbl
- lliniaru’r risg i gyrraedd y safon orau posib o fesurau rheoli
- trosglwyddo’r canlyniadau ariannol i yswirwyr neu gwmnïau allanol
- derbyn bod y risg yn anochel.

Gall yr ymddiriedolwyr gadarnhau na fu unrhyw Ddigwyddiadau Difrifol adroddadwy yn ystod y cyfnod hwn a’u bod yn ymwybodol o’r canllawiau adnewyddedig a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol ar ddiogelu, llywodraethu, ymdrin â chwynion, ymgysylltiad staff a hyder y cyhoedd mewn elusennau.

### Cronfeydd wrth gefn

Ar 31 Awst 2023 roedd cyfanswm yr arian a ddaliwyd gan y Grŵp yn £13,834,000 (2022 - £12,695,000); o'r cyfanswm hwn dosbarthwyd £4,152,000 fel cronfeydd cyfyngedig neu gronfeydd gwaddol (2022 - £2,319,000) gan adael cyfanswm o £10,096,000 mewn cronfeydd anghyfyngedig (2022 - £10,376,000).

Mae’r Grŵp yn anelu at gael lefel ddigonol o gronfeydd wrth gefn i ddarparu rhwyd ddiogelwch tymor byr os bydd diffygion incwm nas rhagwelwyd. Mae hyn yn seiliedig ar asesiad risg o holl ffynonellau incwm y Grŵp.

Dangosir cyfrifiad y cronfeydd rhydd wrth gefn isod ac mae'n dangos cronfeydd rhydd wrth gefn o £3,311,000 (2022 - £3,698,000). Mae gweddill y cronfeydd anghyfyngedig wedi'u dynodi i gefnogi'r gwaith o gynllunio ein hallbwn artistig yn y dyfodol ac i alluogi newid strategol.

### Cronfeydd wrth gefn rhydd

Mae hyn yn cyfeirio at gronfeydd wrth gefn rhydd y Grŵp a gyfrifir yn ôl cyfarwyddyd SORP fel a ganlyn:

| Ar 31 Awst | 2023<br>£’000 | 2022<br>£’000 |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y cronfeydd anghyfyngedig** | **10,096** | **10,376** |
| Ac eithrio’r cronfeydd dynodedig - cronfa ailstrwythuro (Nodyn 13) | 200 | (437) |
| Ac eithrio’r cronfeydd dynodedig – cronfa cynhyrchu (Nodyn 13) | (2,002) | (2,002) |
| Asedau llai sefydlog | (1,482) | (1,543) |
| Ac eithrio cronfa bensiwn wrth gefn | (4,186) | (2,696) |
| **Cronfeydd wrth gefn rhydd** | **2,226** | **3,698** |

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

## Llywodraethu a Rheolaeth

Mae'r Cwmni'n elusen gofrestredig sydd wedi'i hymgorffori fel Cwmni Cyfyngedig drwy Warant heb gyfalaf cyfranddaliadau (Gweler nodyn 12).

Dangosir y manylion gweinyddol a chyfeirnod y Cwmni ar dudalen 57, a cheir manylion Cyfarwyddwyr y Cwmni, sydd hefyd yn aelodau ac ymddiriedolwyr elusennol iddo, ar dudalen 58.

### Llywodraethu

Fel sy'n ofynnol gan Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni, penodir y cyfarwyddwyr gan aelodau'r Cwmni yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol y Cwmni, yn dilyn enwebiad gan yr aelod. Mae aelodaeth y Bwrdd yn deillio o Gymru, Llundain a rhanbarthau Lloegr. Rhyngddynt mae'r cyfarwyddwyr yn meddu ar ystod o arbenigedd, sgiliau a phrofiad sy'n angenrheidiol i ymgymryd â'r cylch gwaith llawn o gyfrifoldebau'r Bwrdd.

Mae bob cyfarwyddwr newydd yn mynd drwy broses cynefino â'r Grŵp yn ogystal â chyfarwyddyd i'w rôl a'i gyfrifoldebau fel ymddiriedolwr elusennol a chyfarwyddwr cwmni. Rhoddir copi o'r Cod Llywodraethu i bob cyfarwyddwr fel rhan o'r broses cynefino.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gymeradwyo polisïau, cynlluniau a threfniant cyffredinol.

Gall Cyfarwyddwyr ddisgwyl i wasanaethu am ddau dymor yn olynol yn y swydd ac maent yn gymwys i wasanaethu am drydydd tymor os cymeradwyir hynny gan y Bwrdd, yn dilyn adolygiad gan y Pwyllgor Enwebiadau a Chydnabyddiaeth Ariannol. Ystyrir estyniad i'r swydd tu hwnt i dri thymor o dan amgylchiadau eithriadol yn unig. Disgwylir i Gadeirydd y Grŵp wasanaethu am ddau dymor yn y swydd waeth beth yw cyfnod eu gwasanaeth fel cyfarwyddwr cyn eu penodiad, os yn berthnasol.

Rhestrir y cyfarwyddwyr a fu'n ddeiliaid y swydd yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad arwyddo'r Datganiadau Ariannol, yn yr adran sy'n dechrau ar dudalen 58.

### Buddiannau cyfarwyddwyr

Nid oes gan gyfarwyddwyr fuddiannau yn y Grŵp na'r cyrff cysylltiedig a ddangosir yn nodyn 19 o'r Datganiadau Ariannol. Ni dderbyniodd y cyfarwyddwyr unrhyw gydnabyddiaeth ariannol fel cyfarwyddwyr yn y flwyddyn (2022 - £dim).

### Uwch Dîm Rheoli

Mae'r Tîm Gweithredol yn cynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Cerdd sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cynnwys cyfarwyddwyr adrannol sy'n gyfrifol am weinyddiaeth artistig, y corws a'r gerddorfa, ymgysylltu a phartneriaethau, datblygu a chysylltiadau allanol, gweithrediadau technegol, pobl a diwylliant, marchnata a chyfathrebu, a chyllid.

Mae nodyn 4 yn cynnwys manylion y trefniadau mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol yr Uwch Dîm Rheoli.

### Cynnwys Cydweithwyr

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd cyfarfodydd gyda chydweithwyr a'u cynrychiolwyr i rannu dealltwriaeth o berfformiad y Grŵp a'r ffactorau ariannol ac economaidd sy'n effeithio arno. Mae'r cyfarfodydd hyn yn galluogi'r Grŵp i ystyried barn cydweithwyr wrth wneud penderfyniadau sy'n debygol o effeithio ar eu

buddiannau. Mae'r Grŵp hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn dysgu a datblygu cydweithwyr ac yn gweithredu system arfarnu cydweithwyr i gefnogi eu datblygiad personol a'u dyheadau gyrfa.

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr (parhad)

### Cyfleoedd cyfartal ac amrywiaeth

Mae’r Grŵp yn ymrwymedig i bolisi cyfle cyfartal yn ei arferion cyflogaeth. Nid yw’r Grŵp yn berchen ar nac yn rheoli unrhyw un o’i leoliadau perfformio, ond mae’n monitro cyfleusterau ar gyfer cefnogwyr anabl ac yn annog y perchnogion theatr i wella cyfleusterau lle bo angen. Rhoddir ystyriaeth lawn i gyflogi a hyfforddi unigolion anabl fel y caniateir gan amodau’r gyflogaeth. Mae’n bolisi’r Cwmni i sicrhau fod cyflogaeth barhaus yn cael ei chynnig, lle bynnag y bo modd, i weithwyr sy’n dod yn anabl yn ystod eu cyflogaeth.

Ar hyn o bryd, mae’r Grŵp yn adolygu ei Bolisi Cydraddoldeb ac yn creu Cynllun Gweithredu Amrywiaeth newydd, cadarn a fydd yn symud y Grŵp ymlaen ym meysydd amrywiaeth artistig, gweithlu a chynulleidfa.

### Digwyddiadau ôl-fantolen

Ym mis Medi 2023, cafodd WNO hysbysiad gan Gyngor Celfyddydau Cymru o gynnig amodol ar y dyfarniad cyllid aml-flwyddyn a ddechreuodd ym mis Ebrill 2024. Roedd y dyfarniad yn cyfateb i doriad bras o 10% i gyllid yn y dyfodol. Roedd y cynnig yn seiliedig ar setliad cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru. Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei setliad drafft ar gyfer 2024/25, a oedd yn cynnwys toriad o 10.5% i’r setliad dangosol ar gyfer Cymorth Grant Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2024/25.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn parhau i ystyried y goblygiadau ac mae'r Cyngor i fod i gyfarfod ym mis Chwefror 2024 i drafod penderfyniad terfynol ar y cynigion. Mae Opera Cenedlaethol Cymru wedi modelu ac yn parhau i drafod cynlluniau ar gyfer trawsnewid, sy’n rhagdybio’r gostyngiad gwreiddiol o 10%.

O ystyried amseriad y cyhoeddiad ystyrir y digwyddiad fel digwyddiad ôl-fantolen na ellir ei newid.

### Cwmni gweithredol

Mae’r cyfarwyddwyr wedi asesu gallu’r Cwmni i barhau fel cwmni gweithredol ar ôl ystyried yr effeithiau ariannol mewn perthynas â'r cyhoeddiad cyllid diweddar gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae’r cyfarwyddwyr wedi ystyried sawl ffactor wrth ffurfio’u casgliadau p’un a yw defnydd o’r sail cwmni gweithredol yn addas wrth baratoi’r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys hylifedd, ffynonellau arian parod, rhwymedigaethau a’r cymorth sydd i’w gael gan gynllun Cyllid Cam 2 Trawsnewid ACE. Ar ôl asesu effaith senarios gostyngiad incwm posib, mae’r cyfarwyddwyr wedi casglu bod gan yr elusen ddisgwyliad rhesymol o ffynonellau digonol i allu parhau i weithredu am o leiaf 12 mis o ddyddiad llofnodi’r datganiadau ariannol ac maent wedi parhau i baratoi’r datganiadau ariannol fel cwmni gweithredol.

## Archwiliwr

Mae bob unigolyn sy’n gyfarwyddwr ar ddyddiad cymeradwyo’r adroddiad hwn yn cadarnhau bod:

- hyd y gŵyr y cyfarwyddwr, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwiliwr y Cwmni yn ymwybodol ohoni; ac
- mae'r cyfarwyddwr wedi cymryd yr holl gamau y dylai ef/hi eu cymryd fel cyfarwyddwr i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwiliwr y Cwmni’n ymwybodol o’r wybodaeth honno.

Mae’r cadarnhad hwn wedi’i roi a dylai gael ei ddehongli yn unol â darpariaethau adran 418 o’r Ddeddf Cwmnïau 2006.

Bydd datrysiad i ail-benodi Azets Audit Services yn cael ei gynnig yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf.

Cymeradwywyd Adroddiad y Cyfarwyddwyr a’r Adroddiad Strategol gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ac fe’u llofnodwyd ar eu rhan gan:

Yvette Vaughan Jones, Cadeirydd

Dyddiad:

# Datganiad o Gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr (gan ymgorffori'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr) a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102: Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer bob blwyddyn ariannol sy'n rhoi golwg cywir a theg ar gyflwr materion y cwmni elusennol a grŵp yn cynnwys eu hincwm a gwariant ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- arsylwi ar y dulliau a'r egwyddorion yn SORP yr Elusennau;
- gwneud beirniadaethau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol a darbodus;
- nodi a yw safonau cyfrifyddu priodol y DU wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriad o'r arfer yn cael eu datgelu a'u hegluro yn y datganiadau ariannol, a
- pharatoi datganiadau ariannol ar sail cwmni sy'n parhau oni bai ei bod yn amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am gynnal cyfrifon priodol sy'n ddigonol i ddangos gyda manwl gywirdeb rhesymol sefyllfa ariannol y cwmni elusennol ar unrhyw bryd a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol a'r grŵp ac, felly, am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Hyd y gŵyr yr ymddiriedolwyr:

- nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohoni; ac
- mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd yr holl gamau y dylent eu cymryd i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw a gonestrwydd yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a gynhwysir ar wefan y cwmni elusennol. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli gwaith paratoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaethau awdurdodaethau eraill.

Llofnodwyd ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Opera Cenedlaethol Cymru Cyfyngedig

**Barn**

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol cwmni Opera Cenedlaethol Cymru Cyfyngedig (y 'rhiant-gwmni elusennol') a'i is-gwmnïau (y 'grŵp') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Awst 2023. Roedd hyn yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen gyfunol a mantolen y rhiant-gwmni, y Datganiad Llif Arian Cyfunol a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol . Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i ddefnyddio wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig yn cynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 Y Safon Adrodd Ariannol perthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion y grŵp a'r rhiant-gwmni elusennol ar 31 Awst 2023, ac o'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r defnydd o adnoddau'r grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

**Sail y farn**

Cynaliasom ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a chyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol oddi ar y grŵp a'r rhiant gwmni elusennol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio yr ydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'n barn.

**Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, daethom i'r casgliad fod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail cyfrifyddu cwmni sy'n parhau wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r grŵp a'r rhiant gwmni elusennol i barhau fel cwmni sy'n parhau am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â chwmni sy'n parhau yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth ychwanegol**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd arno. Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn cynnwys gwybodaeth arall ac, heblaw i'r graddau y nodir yn benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw gasgliad ynglŷn â sicrwydd ar hynny.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu'n ymddangos fel ei bod wedi'i cham-ddatgan yn faterol fel arall. Os byddwn yn nodi anghysondebau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad materol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, ar sail y gwaith yr ydym

wedi'i wneud, byddwn yn dod i'r casgliad bod cam-ddatgan materol yn y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd ar hynny.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd mewn perthynas â hyn.

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau

# Opera Cenedlaethol Cymru Cyfyngedig (parhad)

**Barnau ar faterion eraill a godir yn Neddf Cwmnïau 2006**
Yn ein barn ni, yn seiliedig ar y gwaith a wnaethpwyd yn ystod yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys yr adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr a baratowyd at ddibenion y gyfraith cwmnïau, ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol; a
- mae'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi'u paratoi yn unol â gofynion cyfreithiol cymwys.

**Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad**
Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r grŵp a'r rhiant-gwmni elusennol a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr adroddiad strategol nac adroddiad y cyfarwyddwyr.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol y mae Deddf Cwmnïau 2006 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni adrodd arnynt i chi os, yn ein barn ni:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan y rhiant-gwmni elusennol ac ni dderbyniwyd datganiadau digonol ychwaith ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau na ymwelwyd â hwy gennym ni; neu
- nid yw datganiadau ariannol y rhiant-gwmni elusennol yn gyson â'r ffurflenni a chofnodion cyfrifo; neu
- ni wnaed datgeliadau penodol am gydnabyddiaeth ariannol ymddiriedolwyr a benodir gan y gyfraith; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

**Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**
Fel yr eglurir yn llawnach yn natganiad cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y rhiant gwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg cywir a theg, ac am reolaeth fewnol o'r fath ag y mae'r ymddiriedolwyr yn ei phennu'n hanfodol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag cam-ddatgan materol, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r grŵp a'r rhiant gwmni elusennol i barhau fel cwmni sy'n parhau, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â chwmni sy'n parhau a defnyddio'r cyfrifon cwmni sy'n parhau oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r grŵp neu'r rhiant gwmni elusennol neu roi'r gorau i weithrediadau, neu os nad oes dewis realistig arall heblaw am wneud hynny.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd am yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**
Rydym wedi penodi ein harchwilydd o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 ac adran 151 o Ddeddf Elusennau 2011 ac rydym yn adrodd yn unol â'r Deddfau hynny.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd rhag camddatganiad materol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad yr archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn sicrwydd ar lefel uchel, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn ôl Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad

perthnasol bob tro pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall, a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch ein cyfrifoldebau am yr archwiliad o'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities]. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'n hadroddiad archwilydd.

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau

# Opera Cenedlaethol Cymru Cyfyngedig (parhad)

**Eglurhad ynghylch i ba raddau roedd yr archwiliad yn cael ei ystyried i fod â'r gallu i adnabod anghysondebau, gan gynnwys twyll**

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiad gyda deddfau a rheoliadau. Rydym yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol, er mwyn canfod camddatganiadau materol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Rydym yn casglu ac yn diweddaru ein dealltwriaeth o'r endid, ei weithgareddau, ei amgylchedd rheoli, a datblygiadau tebygol yn y dyfodol, yn cynnwys mewn perthynas â'r fframwaith rheoleiddiol perthnasol a'r ffordd mae'r endid yn cydymffurfio â'r fframwaith hwnnw. Yn seiliedig ar y ddealltwriaeth hon, rydym yn dynodi ac yn asesu'r risgiau o gamddatganiadau materol yn y datganiadau ariannol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad, yn dylunio a chyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, ac yn cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol a phriodol i roi sail ar gyfer ein barn. Mae hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth i risg y gweithredoedd gan yr endid a oedd yn groes i ddeddfau a rheoliadau perthnasol, yn cynnwys twyll.

Mewn ymateb i'r risg o anghysondebau a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, yn cynnwys twyll, rydym wedi dylunio gweithdrefnau sy'n cynnwys:

- Ymholiad i reolaeth a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu o amgylch cyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl yn ogystal â thwyll gwirioneddol, tybiedig a honedig;
- Adolygu cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- Asesu i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r deddfau a'r rheoliadau yr ystyrir hwy i gael effaith materol uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu weithrediadau'r endid drwy ymholiad ac archwiliad;
- Adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol;
- Cynnal archwiliad i ragfarn a diystyriaeth o reolaethau gan reolwyr, yn cynnwys profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion a chywiriadau eraill, a gwerthuso rhesymeg busnes trafodion arwyddocaol y tu allan i'r cwrs busnes arferol ac adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu am unrhyw arwydd o ragfarn bosib.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid unrhyw archwiliad, mae perygl na fyddwn yn canfod bob achos o anghysondeb, yn cynnwys y rheiny sy'n arwain at gamddatganiadau materol yn y datganiadau ariannol neu ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau. Rydym yn llai tebygol o ddod yn ymwybodol o achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau nad oes ganddynt gysylltiad agos â digwyddiadau a thrafodion sydd wedi'u hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol. Mae'r risg o beidio â darganfod camddatganiadau

materol sy’n deillio o dwyll yn uwch nag ar gyfer rhai yn deillio o gamgymeriad, gan y gall twyll olygu bod cydgynllwynio, ffugio, gadael allan yn fwriadol, cam-ddisgrifio, neu oresgyn dulliau rheoli mewnol.

## Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Opera Cenedlaethol Cymru Cyfyngedig (parhad)

**Defnyddio ein hadroddiad**
Gwneir yr adroddiad hwn yn unig i aelodau'r cwmni elusennol, fel corff, yn unol â Phennod 3 Rhan 16 Deddf Cwmnïau 2006. Ymgymerwyd â'n gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan i aelodau’r cwmni elusennol y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd a dim at unrhyw ddiben arall. Hyd eithaf y caniateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb nac yn rhoi cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw am y cwmni elusennol ac aelodau'r cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, neu'r barnau yr ydym wedi'u ffurfio.

**Andrew Howells**
Uwch Archwiliwr Statudol
Ar gyfer, ac ar ran
**Azets Audit Services**
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Tŷ Derw
Lime Tree Court
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd
CF23 8AB

Dyddiad

# Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol

Yn ymgorffori'r cyfrif incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Awst 2023

| Blynyddoedd hyd at 31 Awst: | Nodyn | Cronfeydd anghyfyngedig £'000 | Cronfeydd cyfyngedig £'000 | Cronfeydd gwaddol £'000 | Cyfanswm 2023 £'000 | Cyfanswm 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm a gwaddolion o:** | | | | | | |
| Weithgareddau elusennol | **2a** | 2,728 | - | - | 2,728 | 4,150 |
| Rhoddion | | 849 | 217 | 400 | 1,466 | 774 |
| Cymynroddion | | 125 | 50 | 1,336 | 1,911 | 132 |
| Grantiau cyffredinol | **2a** | 10,033 | - | - | 10,033 | (10,848) |
| Incwm masnachu | | 2,349 | - | - | 2,349 | 2,156 |
| Incwm o fuddsoddiadau | | 23 | 2 | 54 | 79 | 102 |
| **Cyfanswm yr incwm** | | **16,107** | **269** | **1,790** | **18,166** | **18,162** |
| **Gwariant ar:** | | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | | 17,962 | - | - | 17,962 | 17,752 |
| Codi arian | | 344 | - | - | 344 | 356 |
| Gwariant masnachu | | 2,418 | - | - | 2,418 | 2,061 |
| **Cyfanswm gwariant** | **2b** | **20,724** | **-** | **-** | **20,724** | **20,169** |
| **Enillion a cholledion cydnabyddedig eraill.** | | | | | | |
| (Colledion)/enillion net ar fuddsoddiadau | | (32) | (2) | (43) | (77) | (6) |
| **Incwm/(gwariant) net cyn treth** | | **(4,649)** | **267** | **1,747** | **(2,636)** | **(2,013)** |
| Trethiant | **18** | 2,814 | - | - | 2,814 | 2,044 |
| **Incwm /(gwariant) net am y flwyddyn** | **3** | **(1,835)** | **267** | **1,747** | **179** | **31** |
| **Trosglwyddiadau** | | | | | | |
| Trosglwyddiad o gronfa Waddol | | 23 | - | (23) | - | - |
| Trosglwyddiad o gronfeydd cyfyngedig | **13** | 158 | (158) | - | - | - |
| **Enillion/colledion eraill** | | | | | | |
| Enillon/(colledion) actiwaraidd yn y cynllun pensiwn buddion diffiniedig | **17** | 1,374 | - | - | 1,374 | 1,664 |
| **Symudiadau net mewn cronfeydd** | | **(280)** | **109** | **1,724** | **1,553** | **1,695** |
| Balans y gronfa a ddygwyd ymlaen | **16** | 10,376 | 350 | 1,969 | 12,695 | 11,000 |
| **Balans y gronfa a gariwyd drosodd** | | **10,096** | **459** | **3,693** | **13,834** | **12,695** |

Cynhwysir holl enillion a cholledion a gydnabuwyd yn y flwyddyn yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithgareddau parhaus. Mae'r nodiadau ar dudalennau 29 i 55 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn. Ni chyflwynir cyfrif incwm a gwariant ar wahân ar gyfer y rhiant-gwmni yn unol â darpariaethau s.408 Deddf Cwmnïau 2006. Y cyfanswm incwm ar gyfer y rhiant-gwmni yw £20,278,000 (2022 -£16,568,000). Mae'r canlyniad a adroddir amdano yng nghyfrifon y rhiant-gwmni yn ddiffyg o £792,000 (2022 -diffyg o £1,507,000).

# Mantolen Gyfunol

## Ar 31 Awst 2023

| | Nodyn | 31 Awst 2023 £'000 | 31 Awst 2022 £'000 |
|---|---|---|---|
| Asedau sefydlog | | | |
| Asedau diriaethol | **7a** | 1,482 | 1,543 |
| Buddsoddiadau | **7b** | 3,038 | 3,115 |
| | | **4,520** | **4,658** |
| | | | |
| Asedau cyfredol | | | |
| Stociau | **8** | 102 | 114 |
| Dyledwyr | **9** | 4,420 | 3,450 |
| Adneuon banc ac arian parod | **10** | 2,751 | 3,590 |
| | | **7,273** | **7,154** |
| Credydwyr: symiau sy'n daladwy o fewn blwyddyn | **11** | (1,731) | (1,813) |
| **Asedau cyfredol net** | | **5,542** | **5,341** |
| | | | |
| **Cyfanswm asedau ar ôl tynnu rhwymedigaethau cyfredol** | | **10,062** | **9,999** |
| | | | |
| **Asedau net ac eithrio rhwymedigaethau pensiwn** | | **10,062** | **9,999** |
| Pensiwn buddion diffiniedig (rhwymedigaethau)/asedau | **17** | 4,186 | 2,696 |
| **Asedau net** | | **14,248** | **12,695** |
| | | | |
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | | |
| Cronfeydd elusennol eraill | **13** | 2,803 | 4,373 |
| Cronfeydd dynodedig | **13** | 2,239 | 2,439 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | **13** | 868 | 868 |
| Cronfa pensiwn | **17** | 4,186 | 2,696 |
| **Cyfanswm y cronfeydd anghyfyngedig** | **13** | **10,096** | **10,376** |
| | | | |
| Cronfeydd cyfyngedig | **14** | 459 | 350 |
| Asedau gwaddol | **15** | 3,693 | 1,969 |
| | | | |
| **Cyfanswm y cronfeydd elusennol** | | **14,248** | **12,695** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 29 i 56 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn

Cymeradwywyd datganiadau ariannol cwmni Opera Cenedlaethol Cymru Cyfyngedig, rhif cwmni cofrestredig 00454297, gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr a'u hawdurdodi i'w cyhoeddi ar 22 Chwefror 2024

Llofnodwyd ar ran Bwrdd y Cyfarwyddwyr:

**Martyn Ryan - Ymddiriedolwr**

# Mantolen y Cwmni

## Ar 31 Awst 2023

| | Nodyn | | 31 Awst 2023 £'000 | | 31 Awst 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Asedau sefydlog | | | | | |
| Asedau diriaethol | **7a** | | 1,482 | | 1,543 |
| Buddsoddiadau | **7b** | 3,038 | | 3,115 | |
| | | **4,520** | | **4,658** | |
| Asedau cyfredol | | | | | |
| Stociau | **8** | | 102 | | 114 |
| Dyledwyr | **9** | | 1,334 | | 1,537 |
| Adneuon banc ac arian parod | **10** | | 2,673 | | 3,337 |
| | | | **4,109** | | **4,988** |
| Credydwyr: symiau sy'n daladwy o fewn blwyddyn | **11** | | (1,354) | | (1,673) |
| **Asedau cyfredol net** | | | **2,755** | | **3,315** |
| **Cyfanswm asedau ar ôl tynnu rhwymedigaethau cyfredol** | | | **7,275** | | **7,973** |
| **Asedau net ac eithrio rhwymedigaethau pensiwn** | | | **7,275** | | **7,973** |
| Pensiwn buddion diffiniedig (rhwymedigaethau)/asedau | **17** | | 4,186 | | 2,696 |
| **Asedau net** | | | **11,461** | | **10,669** |
| **Cronfeydd anghyfyngedig:** | | | | | |
| Cronfeydd elusennol eraill | **13** | | 16 | | 2,347 |
| Cronfeydd dynodedig | **13** | | 2,239 | | 2,439 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | **13** | | 868 | | 868 |
| Cronfa pensiwn | **17** | | 4,186 | | 2,696 |
| **Cyfanswm y cronfeydd anghyfyngedig** | **13** | | **7,309** | | **8,350** |
| Cronfeydd cyfyngedig | **14** | | 459 | | 350 |
| Asedau gwaddol | **15** | | 3,693 | | 1,969 |
| **Cyfanswm y cronfeydd elusennol** | | | **11,461** | | **10,669** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 29 i 56 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Ni chyflwynir cyfrif incwm a gwariant ar wahân ar gyfer y rhiant-gwmni yn unol â darpariaethau adran.408 Deddf Cwmnïau 2006. Y cyfanswm incwm ar gyfer y rhiant-gwmni yw £20,278,000 (2022 -£16,568,000). Mae'r canlyniad a adroddir amdano yng nghyfrifon y rhiant-gwmni yn ddiffyg o £792,000 (2022 -diffyg o £1,507,000).

Cymeradwywyd datganiadau ariannol cwmni Opera Cenedlaethol Cymru Cyfyngedig, rhif cwmni cofrestredig 00454297, gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr a'u hawdurdodi i'w cyhoeddi ar 22 Chwefror 2024

Llofnodwyd ar ran Bwrdd y Cyfarwyddwyr: **Martyn Ryan - Ymddiriedolwr**

# Datganiad Llif Arian Cyfunol

| Blynyddoedd hyd at 31 Awst: | Nodyn | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Llif arian net o weithgareddau gweithredol (gweler isod) | | (773) | (3,112) |
| Llog a gafwyd | | 79 | 102 |
| | | | |
| Gweithgareddau buddsoddi: | | | |
| Enillion o werthu buddsoddiadau (cyfranddaliadau etc.) | **7b** | 796 | 832 |
| Buddsoddiadau (mewn cyfranddaliadau etc.) | **7b** | (883) | (714) |
| Pryniannau asedau sefydlog | **7a** | (64) | 33 |
| Enillion o werthu asedau sefydlog | **2a** | 6 | - |
| **Symudiadau arian parod net** | | **(839)** | **(3,207)** |
| | | | |
| Swm agoriadol yr arian parod yn y banc ac i law | | 3,590 | 6,517 |
| | | | |
| **Arian parod terfynol yn y banc ac i law** | | **2,751** | **3,590** |

| **Llif arian net o weithgareddau gweithredol**<br>Blynyddoedd hyd at 31 Awst: | | 2023<br>£'000 | 2022<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant net ar gyfer y flwyddyn | | 179 | 31 |
| Addasiadau ar gyfer: | | | |
| | | | |
| Rhyddhad o gronfeydd wrth gefn | | - | - |
| Symudiadau yng Nghronfa Gwaddol WNO | | - | - |
| Llog derbyniadwy | | (79) | (102) |
| Costau dibrisio | **7a** | 125 | 136 |
| Elw o werthu asedau sefydlog | **2a** | (6) | - |
| Symudiadau mewn buddsoddiadau | **7b** | 164 | (112) |
| | | | |
| **Llif arian gweithredol cyn symudiadau mewn cyfalaf gweithio** | | **383** | **(47)** |
| | | | |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio: | | | |
| Symudiadau mewn stociau | **8** | 12 | (20) |
| Symudiadau mewn dyledwyr | **9** | (970) | (1,256) |
| Symudiadau mewn credydwyr | **11** | (82) | (1,772) |
| Addasiad ar gyfer cyllid pensiwn | **17** | (116) | (17) |
| | | **(1,156)** | **(3,065)** |
| | | | |
| **(All-lif)/mewn-lif arian parod net o weithgareddau gweithredol** | | **(773)** | **(3,112)** |

Ni chyflwynir cyfrif incwm a gwariant ar wahân ar gyfer y rhiant-gwmni yn unol â darpariaethau s408 Deddf Cwmnïau 2006.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 29 i 56 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

## 1. Polisïau Cyfrifyddu

Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn elusen gofrestredig wedi'i hymgorffori yng Nghymru a Lloegr fel cwmni cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfranddaliadau. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn aelodau o'r Cwmni. Mae bob aelod wedi cytuno i gyfrannu swm nad yw'n fwy na £10 i'r asedau os digwydd iddo ddirwyn i ben. Nodir cyfeiriad y swyddfa gofrestredig ar dudalen 55.

### Sail cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â dogfen lywodraethu'r elusen, Deddf Cwmnïau 2006 a "Chyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arfer Argymelledig sy'n berthnasol i elusennau wrth iddynt baratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn weithredol o 1 Ionawr 2019)". Mae'r elusen yn Endid Budd Cyhoeddus fel y diffinnir gan FRS 102.

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi mewn sterling, sef arian cyfred gweithredol yr elusen. Yn y datganiadau ariannol hyn caiff pob gwerth ariannol ei dalgrynnu i'r £ agosaf.

Paratowyd y datganiadau ariannol dan y polisïau confensiwn cost hanesyddol, a'u haddasu i gynnwys offerynnau ariannol penodol ar werth teg. Mae'r prif bolisïau ariannol a fabwysiadwyd wedi'u nodi isod.

### Sail cyfnerthu

Paratowyd datganiadau ariannol grŵp mewn perthynas â chwmni Opera Cenedlaethol Cymru Cyfyngedig a'i is-gwmnïau y mae'n llwyr berchen arnynt, Gwasanaethau Theatraidd Caerdydd Cyfyngedig a Chynyrchiadau Opera Cenedlaethol Cymru Cyfyngedig, fesul llinell. Nodir canlyniadau'r is-gwmnïau yn nodyn 18.

Ni chyflwynwyd datganiad o weithgareddau ariannol a chyfrif incwm a gwariant ar gyfer yr Elusen ei hun fel y caniateir gan Adran 408 y Ddeddf Cwmnïau 2006 a pharagraff 397 y Datganiad o'r Arfer Argymelledig: SORP yr Elusennau (FRS 102).

### Cyfrifyddu cronfeydd

Cronfeydd cyffredinol yw cronfeydd anghyfyngedig sydd ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn y bwrdd i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen ac sydd heb eu dynodi at ddibenion eraill.

Mae cronfeydd dynodedig yn cynnwys cronfeydd sydd wedi eu neilltuo yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr at ddibenion penodol. Nodir dibenion a defnydd y cronfeydd dynodedig yn nodiadau'r datganiadau ariannol.

Cronfeydd cyfyngedig yw cronfeydd sydd i gael eu defnyddio yn unol â chyfyngiadau penodol a osodwyd gan noddwyr a godwyd gan yr elusen at ddibenion penodol. Mae'r gost o godi a gweinyddu y fath gronfeydd yn cael eu codi yn erbyn y gronfa benodol. Nodir bwriad a defnydd y cronfeydd dynodedig yn nodiadau'r datganiadau ariannol.

Mae cronfeydd gwaddol yn amodol ar amodau penodol gan noddwyr bod rheidrwydd i'r cyfalaf gael ei gynnal gan yr elusen.

# Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

## 1. Polisïau Cyfrifyddu (parhad)

### Ffynonellau incwm

Caiff incwm ei gydnabod unwaith y bydd gan yr elusen hawl gyfreithiol iddo ar ôl bodloni unrhyw amodau perfformiad, a'i bod yn debygol y derbynnir yr incwm ac y gellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Cydnabyddir rhoddion arian parod ar ôl eu derbyn. Cydnabyddir rhoddion eraill unwaith caiff yr elusen ei hysbysu am y rhodd, oni bai bod amodau perfformiad yn gofyn am ohirio'r swm.

Cydnabyddir incwm o grantiau unwaith y bydd gan yr elusen hawl i'r arian, bod unrhyw amodau perfformiad sydd ynghlwm â'r grantiau wedi eu bodloni, ei bod yn debygol y derbynnir yr incwm ac y gellir mesur y swm yn ddibynadwy a'i fod yn incwm sydd heb ei ohirio.

Cydnabyddir cymynroddion ar ôl iddynt ddod i law neu fel arall os yw'r elusen wedi cael gwybod am ddyraniad arfaethedig, y swm, a bod y swm yn ddisgwyliedig. Os nad yw'r swm yn hysbys, ymdrinnir â'r gymynrodd fel ased amodol.

Caiff incwm o weithgareddau elusennol ac incwm masnachu eu cydnabod yn y cyfnod pan fo'r gwasanaeth sy'n gysylltiedig ag unrhyw symiau a dderbynnir ymlaen llaw yn cael ei ohirio.

Ni chaiff unrhyw symiau'n ymwneud â gwasanaethau ac amser a roddir gan wirfoddolwyr eu cynnwys yn y datganiadau ariannol.

Bydd llog ar gronfeydd yn cael ei gynnwys pan gaiff ei dderbyn a phan ellir mesur y swm yn ddibynadwy gan yr elusen; bydd hyn fel rheol ar hysbysiad y llog a dalwyd neu sy'n daladwy gan y banc. Unwaith y pennir y dyddiad sy'n rhoi'r hawl i'r elusen dderbyn y taliad, caiff unrhyw incwm difidend ei gydnabod bryd hynny.

Caiff trosiant ei fesur yn ôl gwerth teg yr ystyriaeth sydd wedi ei derbyn neu sydd modd ei derbyn ac mae'n cynrychioli symiau derbyniadwy ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a ddarperir yn ystod eu busnes arferol, prisiau gostyngol net, TAW a threthi eraill sy'n ymwneud â gwerthiannau.

### Cydnabyddiaeth o wariant

Cydnabyddir gwariant cyn gynted ag y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu gyfyngol i wneud taliad i drydydd parti, mae'n debygol y bydd angen gwneud taliad llawn ac y gellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Dosberthir gwariant o dan y penawdau gweithgaredd canlynol:

- Mae'r gost o godi arian yn cynnwys y gost o ran cynhyrchu incwm megis achlysuron a digwyddiadau codi arian, marchnata a chyhoeddusrwydd a chostau penodol yn ymwneud ag is-gwmnïau masnachol yr elusen.
- Mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys yr holl gostau'n ymwneud â hyrwyddo amcanion yr elusen fel y nodir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Codir TAW na ellir ei adennill fel cost yn erbyn y gweithgaredd yr ysgwyddwyd y gwariant ar ei gyfer.

# Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

## Cydnabyddiaeth o wariant (parhad)

Mae gwariant sy'n deillio o gynyrchiadau a gyflwynir o fewn cyfnod ariannol arall yn y dyfodol yn cael ei godi ar berfformiad cyntaf y cynhyrchiad. Mae'r fath wariant yn cynnwys rhan y cwmni o gostau'r set, propiau, gwisgoedd, wigiau, ymarferion a marchnata'r cynhyrchiad hwnnw.

Darparwyd dadansoddiad fesul adran ar gyfer y gweithgareddau elusennol.

Mae'r costau wedi'u priodoli'n uniongyrchol i'r gweithgaredd y maent yn ymwneud ag o, lle bo'n bosib. Lle na ellir cysylltu costau â phenawdau penodol, maent wedi'u neilltuo i weithgareddau ar sail sy'n gyson â defnydd adnoddau.

Costau cefnogi yw'r swyddogaethau hynny sy'n cynorthwyo gwaith yr elusen ond nad ydynt yn ymgymryd â gweithgareddau elusennol yn uniongyrchol. Mae'r costau llywodraethu yn cynnwys holl gostau yn ymwneud ag atebolrwydd cyhoeddus yr elusen a'i chydymffurfiad â rheolaethau ac arfer dda.

## Treth

Fel elusen gofrestredig mae cwmni Opera Cenedlaethol Cymru Cyfyngedig â'r hawl i gael ei eithrio rhag talu treth mewn perthynas â'r incwm neu enillion cyfalaf a dderbyniwyd ag adrannau 478-489 Deddf y Dreth Gorfforaeth 2010 ac adran 256 o Ddeddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y caiff y rhain eu cymhwyso at ddibenion ei amcanion elusennol yn unig.

## Rhyddhad Treth i Theatrau

Mae'r symiau sy'n daladwy i Opera Cenedlaethol Cymru o ran Rhyddhad Treth i Theatrau, yn cael eu cynnwys yn y flwyddyn ariannol y mae'r cais yn ymwneud â hi o fewn Incwm o Weithgareddau Elusennol yn hytrach nag fel credyd treth neu ostyngiad mewn gwariant gan fod natur a bwriad Rhyddhad Treth i Theatrau yn debyg i incwm grant y llywodraeth.

## Asedau sefydlog a dibrisiant

I ddechrau mae asedau sefydlog diriaethol yn cael eu mesur ar gost ac yna'n cael eu mesur ar gost neu brisiad, dibrisiant net ac unrhyw golledion diffygiol neu mewn achosion lle mae asedau sefydlog wedi cael eu cyfrannu i'r elusen, wrth iddynt gael eu prisio ar amser eu caffael.

Cydnabyddir dibrisiad er mwyn dileu'r gost neu brisiad yr asedau ar ôl tynnu eu gwerthoedd gweddilliol dros eu hoes ddefnyddiol ar y sail ganlynol:

| Categori'r Ased: | Polisi Dibrisiant: |
|---|---|
| Safleoedd lesddaliad hir | Wedi dibrisio dros 50 mlynedd |
| Cerbydau | 10% i 25% y flwyddyn ar sail llinell syth |
| Cyfarpar, ffitiadau a gosodiadau | 9% i 33% y flwyddyn ar sail llinell syth |

Cafodd safleoedd lesddaliad hir y Grŵp eu prisio ar eu trosglwyddiad i FRS 102, ac mae'r gwerth hwn bellach wedi'i fabwysiadu
gan y Grŵp fel y gost dybiedig fel y caniateir gan FRS102. Mae asedau sefydlog eraill yn cael eu cynnwys ar gost ar ôl tynnu'r dibrisiant cronedig.

Mae'r costau o greu cynyrchiadau opera yn cael eu dileu yn llawn ar berfformiad cyntaf y Cwmni o'r cynhyrchiad.

# Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

## 1. Polisïau Cyfrifyddu (parhad)

### Buddsoddiadau

Caiff buddsoddiadau asedau sefydlog mewn cyfranddaliadau a ddyfynnir, bondiau a fasnachir a buddsoddiadau tebyg eu prisio ar gost i ddechrau ac yna ar werth teg (eu gwerth marchnad) ar ddiwedd y flwyddyn. Rhoddir yr un driniaeth i fuddsoddiadau anrhestredig os na ellir mesur gwerth teg yn ddibynadwy, ac os felly caiff ei fesur ar gost ar ôl tynnu'r diffygion.

### Stociau

Mae stociau yn cynnwys deunyddiau crai a chânt eu nodi ar y gost isaf a gwerth gwireddadwy net.

### Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a chyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian parod i law, adneuon a gedwir ar alwad â banciau, buddsoddiadau rhydd tymor byr gydag adegau aeddfedu gwreiddiol o dri mis neu lai, a gorddrafftiau banc. Dangosir gorddrafftiau banc o fewn benthyciadau yn y rhwymedigaethau cyfredol.

### Offerynnau ariannol

Mae'r elusen wedi dewis cymhwyso darpariaethau o Adran 11 'Offer Ariannol Sylfaenol' ac Adran 12 'Materion Offer Ariannol Eraill' o FRS 102 i'w offer ariannol i gyd. Grantiau cyfalaf, yn unol â Chyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: (SORP 2015), wedi'u nodi o fewn cronfeydd cyfyngedig. Yn unol â hyn, mae'r gronfa hon yn cael ei lleihau gan ddibrisiant sy'n deillio o'r asedau sefydlog diriaethol a geir gyda'r grant.

Cydnabyddir yr offer ariannol ar fantolen yr elusen pan ddaw'r elusen yn rhan o ddarpariaethau cytundebol yr offer.

Mae'r asedau a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu gwrthbwyso, gyda'r cyfansymiau net wedi'u cyflwyno yn y datganiadau ariannol, pan fo hawl gyfreithiol orfodol i gydbwyso'r symiau a gydnabyddir a bod bwriad i setlo ar sail net neu i gydnabod yr ased a setlo'r rhwymedigaeth ar yr un pryd.

### Asedau ariannol sylfaenol

I ddechrau caiff asedau ariannol sylfaenol, sy'n cynnwys balansau banc, dyledwyr ac arian parod, eu mesur ar bris trafod yn cynnwys costau trafod ac yna cânt eu cario ar gost sydd wedi'i hamorteiddio drwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol oni bai bod y trefniant yn cynnwys trafodiad ariannu, lle mesurir y trafodiad yn ôl gwerth cyfredol y derbyniadau yn y dyfodol a ostyngir ar gyfradd llog y farchnad. Ni chaiff asedau ariannol a ddosbarthir fel derbyniadwy o fewn blwyddyn eu hamorteiddio.

### Dadgydnabod asedau ariannol

Caiff asedau ariannol eu dadgydnabod dim ond pan fydd hawliau cytundebol i'r llifau arian o'r ased ddod i ben neu eu setlo, neu pan fydd yr elusen yn trosglwyddo'r ased ariannol ac yn sylweddol yr holl risgiau a gwobrau perchnogaeth i endid arall, neu cedwir rhai risgiau a gwobrau perchnogaeth sylweddol ond bod rheolaeth dros yr ased yn cael ei drosglwyddo i barti arall sy'n gallu gwerthu'r ased yn ei gyfanrwydd i drydydd parti digyswllt.

# Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

## 1. Polisïau Cyfrifyddu (parhad)

Rhwymedigaethau ariannol sylfaenol

Caiff rhwymedigaethau ariannol sylfaenol, gan gynnwys credydwyr a benthyciadau banc, eu cydnabod ar bris trafod i ddechrau oni bai fod y trefniant yn cynnwys trafodiad ariannu, lle mesurir yr offer dyled yn ôl gwerth cyfredol y taliadau yn y dyfodol a ostyngir ar gyfradd llog y farchnad. Ni chaiff asedau ariannol a ddosbarthir fel taladwy o fewn blwyddyn eu hamorteiddio.

Yna caiff yr offer dyled eu cario ar gost sydd wedi'i hamorteiddio, drwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Mae credydwyr masnach yn rhwymedigaethau i dalu am nwyddau a gwasanaethau sydd wedi'u caffael yn ystod gweithrediadau arferol gan gyflenwyr. Caiff symiau sy'n daladwy eu dosbarthu fel rhwymedigaethau cyfredol os yw taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai. Os ddim, fe'i cyflwynir fel rhwymedigaethau anghyfredol. Caiff credydwyr masnach eu cydnabod ar bris trafod i ddechrau ac wedyn eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio drwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Dadgydnabod asedau ariannol.

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dadgydnabod pan ddaw rhwymedigaethau cytundebol i ben neu eu cyflawni neu eu canslo.

Buddion i

Weithwyr

Caiff cost unrhyw hawl i wyliau na ddefnyddiwyd ei gydnabod yn y cyfnod pan dderbynnir gwasanaethau gan y gweithiwr.

Cydnabyddir buddion terfynu ar unwaith fel traul pan fo'r elusen yn ymrwymedig naill ai i derfynu cyflogaeth gweithiwr neu i ddarparu buddion terfynu.

Pensiynau

Ar gyfer cynlluniau cyfraniadau diffiniedig:
Mae'r cwmni elusennol yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Caiff asedau'r cynllun eu cadw ar wahân i'r rheiny ar gyfer yr elusen. Codir taliadau i gynlluniau buddion pensiwn cyfraniadau diffiniedig fel traul wrth iddynt ddod yn daladwy a'u rhoi yn erbyn cronfeydd anghyfyngedig.

# Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

## 1. Polisïau Cyfrifyddu (parhad)

Ar gyfer y cynllun buddion diffiniedig:
Mae'r Grŵp yn cadw cynllun pensiwn buddion diffiniedig a gaewyd i ymgeiswyr newydd a chroniadau pellach ar 5 Ebrill 2009. Mae nodyn 17 yn amlinellu'r datgeliadau llawn yn unol â FRS 102 'Buddion Ymddeol'.

Caiff asedau'r cynllun eu cadw ar wahân mewn cronfa a weinyddir yn annibynnol.

Mae'r gost o ddarparu buddion dan gynlluniau buddion diffiniedig yn cael eu pennu ar wahân ar gyfer bob cynllun drwy ddefnyddio'r dull rhagamcanu credydau unedau, ac fe'i seilir ar gyngor actiwaraidd.

Cydnabyddir y newid yn y rhwymedigaeth budd diffiniedig net a ddaw yn sgil gwasanaeth gan weithwyr yn ystod y flwyddyn fel cost gweithwyr. Caiff costau cyflwyno i'r cynllun, newidiadau mewn buddion, taliadau a chwtogiadau eu cydnabod fel costau a achoswyd.

Pennir yr elfen llog net drwy luosi'r rhwymedigaeth budd diffiniedig net â'r gyfradd ddisgownt, gan ystyried unrhyw newidiadau yn y rhwymedigaeth budd diffiniedig yn ystod y cyfnod o ganlyniad i daliadau budd-dal a chyfraniadau. Caiff y llog net ei gydnabod yn yr incwm/ (gwariant) ar gyfer y flwyddyn.

